

WIDENER



HN ZYLF G

Cerddi'r Eryri - 1887

Good

Cell 44.10.65

HARVARD COLLEGE
LIBRARY



FROM THE BEQUEST OF
THOMAS WREN WARD

Treasurer of Harvard College
1830-1842



L. Y. Phillips Cover

CERDDI'R ERYRI:

SEF CASGLIAD DEWISOL O

GERDDI DIGRIFOL A NOESOL.



LLANRWST:

CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN W. J. ROBERTS.

Pris Chwe'cheinog.

ROBERTS,

0

CĒRDDI'R ERYRI:

SEF CASGLIAD O OREUON

CERDDI POBLOGAIDD CYMRU,

YN CYNWYS

CANEUON GWLADGAROL,

TEIMLADOL, MOESOL,

ADDYSGIADOL & DIFYROL,


WEDI EU CRYNHOI I GYFROL FECHAN ER HWYLUSDOD I'R
DATGANYDD, Y CYSTADLEUYDD, A'R ADRODDYDD.

— c + 9 —
PRIS CHWE'CHEINIOG.

— — — — —
§ LLANRWST:
ARGRAPHWYD AC AR WERTH GAN W. J. ROBERTS.

1887.

GLL- 4410.69



Ward fund

RHAGYMDRODD.



Fy unig amcan i wrth gyhoeddi y detholiad hwn o ganeuon mwyaf poblogaidd yr oes a'r oror ydyw estyn cyfleustra i'm cydwladwyr i gael Llawlyfr hwylus at wasanaeth y Cyngherdd, y Gystadleuaeth a'r Aelwyd, gan hyderu y bydd fy ngwaith yn rhoddi boddhad a hwylusdod.

Yr eiddoch, yn wladgar,

G. C.

MAI 2FED, 1887.

CYNWYSIAD.

Y Ddraig Goch	5
Cân yr Arwest	6
Hen Wlad fy Nhadau	7
Cerdd y Cymreigyddion	8
Hiraeth y Bardd am ei hen Wlad	9
Molawd Cymru...	10
Cyflafan Morfa Rhuddlan	12
Cymru Lan Gwlad y Gan	13
Yr Hen Amser Gynt	14
Nos Sadwrn y Gweithiwr	15
Ymweliad y Bardd a thre'r Bala	17
Caniad y Gog i Arfon	18
Myfyrdod ar lanau Conwy	21
Can y Bardd wrth Farw	22
Can yMelinydd...	22
Bwthyn Bach tŷ Gwellt	23
Bugail Aberdyfi...	25
Mae Pawb a Phob peth yn myn'd yn Hen	26
Clychau Aberdyfi	27
Anwylaf Wlad fy Nghalon	28

Gelert Ci Llewelyn	29
Bedd y Dyn Tylawd	31
Y Deryn Pur	32
Gyda'r Wawr	32
Hedydd Lon	33
Codiad yr Hedydd	34
Gweno Fwyn Gu	35
Y Morwr Mwyn	36
Yr hen amser gynt pan oedd Bess yn teyrnasu	37
Ysgubor Rhysyn	40
Fy anwyf Robin Bach	41
Plu ydyw plu yn y diwedd	43
Gogangerdd Dirmygwyr Cyfarfodydd Llenyddol	44
Sion Prys	47
Y Byd yn Powlio	49
Mi ges i gam ofnadwy	51
Molawd y Delyn	53
Diwrnod Cynhebrwng fy Mam	55
Ysgoldy Rhad Llanrwst...	56
Ewyllys Adda	58
Cerdd y Fwyall, (E. COWPER.)	60
Mawrnad Thos. Kyffin, Maenan	63
Can yr Hen Bobl	66
Byrder oes Dyn	68
Hiraeth am Lanfair	70
Molawd Arthur	72

CERDDI'R ERYRI.

Y DDRAIG GOCH.

Music i'w gael gan Gwilym Cowlyd.

Chwifwfn faner Goch y Ddraig
Draig hen Walia Wen,
Draig a lluman Eryri craff
Eryri uwch ei phen ;
Canwn fel y canem gyd
A Chwrth a Thelyn Dên
Gerddi 'r Eryri 'n oes oesoedd.

GYDGAN :—

Ein Ner, Ein Ner, a folwn yn ddi-lyth
Ein Hiaith, Ein Hiaith, a'n gwlad a gadwn byth
Parchwn ein defodau mâd
A chanwn tra bo chwyth
Gerddi 'r Eryri 'n oes oesoedd.

Chwyfiodd Arthur yn y gwynt
Ddragon gyfliw gwaed
Fathrodd falchder Rhufain gynt
A'i chedyrn dan ei thraed ;
Cedyrn heb eu plygu rioed
Mewn un henafol hynt
Ydyw gwroniaid Eryri.

Ein Ner &c.

Cymru, Lloegr, a Llanrwst,
Yw hen ddihareb byd
Treigla'r Wyddfa i lawr yn ddwst
A ninau'n Gymry o hyd,
Methodd brad ein llyw a'n beirdd
A lladd anfarwol fryd
Beirdd a gwroniaid Eryri.

Ein Ner &c.

Chwyf ein Draig arynaig rudd'
 Sail ar Fosworth sôn,
 Rwymai 'r tras brenhinol pur
 Wrth linach Tudur Môn,
 Tra bo'n Mhrydain Wên "Eich Dyn,"
 Parchwn ef a'n Iôn,
 Byw fyddo Banon Eryri.

Ein Ner &c

Copyright Reserved.

GWILYM COWLYD.

GLAN GEIRIONYDD—CAN YR ARWEST.

*Musig gan Eos Bradwen.**

I fryniau Geirionydd a murmur ei lli,
 Mae swynion y daith uwch eu rhifo,
 Mor dyner oedd awel y mynydd i mi,
 A glöewon raiadrau'n dylifo,
 Yn llwybrau yr Awen a gardd wyllt y brwyn;
 Lle bu yr ystorm yn taranu,
 Mi glywais forwynig yn nghysgod y llwyn
 Wrth wylled y praidd yno'n canu, canu.

A hon yw yr hen brophwydoliaeth a'r gân—

"Eu Ner, eu Ner a folant,"

Eu tiroedd a gollant. Ond Gwalia lân
 Er hyny yr heniaith a gadwant.

F'anwylyd, fe weli elynion dy wlad,
 Yn dyfod a'u saethau yn suo;
 Clyw udgorn y Gelyn yn galw i'r gâd,
 Gwel wybren dy hen Gymru'n duo;
 Bydd cartref y Brython i'r gelyn yn sarn;
 Anghofir dy hen brophwydoliaeth,
 Bydd farw dy heniaith, yr estron a'i barn;
 Pa le bydd dy hen annibyniaeth?

Estron,—Mae awel y bryniau yn sibrdw y gân.

"Eu Ner, eu Ner a folant:"

Eu tiroedd a gollant, Ond Gwalia lân
 Er hyny yr heniaith a gadwant.

* I'w gacl yn y ddau Nodiant gan W. J. Roberts, Llanrwst.

Os wyt ti f'anwlyd, liw ewyn y dòn,
 Dan gysgod y llwyn yma'n dawel,
 A elli di ganu mor ddedwydd dy fron,
 Pan ddaw swn ystorm yn yr awel?
 Fe gyfyd gelynion, mae difrod ar daith,
 Gwel ormes a brad yn dynesu,
 Clyw accen y bryniau'n anghofio'r hen iaith,
 A'r awen heb neb i'w mynwesu.

Estron,—Mae awel y bryniau yn gwybod y gân
 "Eu Ner, eu Ner a folant,"
 Eu tiroedd a gollant, ond Gwalia lân,
 Er hyny yr heniaith a gadwant.

Copyright Reserved.

EOS BRADWEN.

HEN WLAD FY NHADAU.

Ton—Hen Wlad fy Nhadau.

Mae hen wlad fy nhadau yn anwyl gan i,
 Gwlad beirdd a cherddorion enwogion o fri;
 Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mât,
 Dros ryddid collasant eu gwaed.

BYRDWN.

Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad,
 Tra mor yn fur i'r bur hoff bau,
 O bydded i'r hen iaith barhau.

Hen Gymru fynyddig, paradwys y bardd,
 Pob dyffryn, pob clogwyn i'm golwg sydd hardd,
 Trwy deimlad gwladgarol mor swynol yw si
 Ei nentydd, afonydd i fi.

Gwlad, gwlad, &c.

Os treisiodd y gelyn fy ngwlad dan ei droed,
 Mae hen iaith y Cymry mor fyw ag erioed,
 Ni luddiwyd yr awen gan erchyll law brad—
 Na thelyn berseiniol fy ngwlad.

Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad,
 Tra mor yn fur i'r bur hoff bau,
 O bydded i'r hen iaith barhau,

CERDD Y CYMREIGYDDION.

Ton—Calon Derwen.

Dowch, Gymreigyddion, y Brython da eich bri,
 I gofio eich hen dadau. da raddau di ri?
 Rhaid i chwi gydnabod bob ælod yn bur,
 Nad ydyw gwag redeg coeg Saes'neg ond sur;
 Plant Cymru da eu rhyw, mae llwyddiant i'n llyw,
 I gadw ein harferion tra byddom ni byw.
 A d'wedwn i gyd, hardd frodyr un fryd,
 Ein hiaith a barhao, a llwyddiant a'i cadwo,
 Heb loes, trwy bob oes, trwy bob oes, tra bo byd!

BYRDWN,—A d'wedwn i gyd, &c.

Pwy ddichon draethu, neu haeru ar ei hynt,
 Mor wychol oedd moddau'r hen gampau gynt;
 Cadw trwy ryfel yr hoedel o hyd,
 A churo ar filwriaeth holl benaeth y byd;
 Er cyni o fyd caeth, ni fyddent ddim gwaeth,
 Yr hen Gymry calonus oedd drefnus ar draeth: :
 Aeth Madog heb dra, a'i ddyfais oedd dda,
 Hyd wyneb y dyfroedd, a'i lestr a hwyliodd,
 Trwy nerth y moroedd certh, moroedd certh, i'r
 America!

BYRDWN,—Aeth Madog heb dra, &c.

Ac eto'n rhai gwychol, mae buddiol ein bod;
 Hiliogaeth glan Cymru, yn glynu yn y glod,
 Ni chollwn mo'n Breintiau o'n moddau'n un man;
 Cynhaliwn gadernid ein Rhyddid i'n rhan;
 Gan hyny, ar bob taith, amddiffynwn ein Hiaith,
 Pwy sydd yn amheul nad gwychol ein gwaith!
 A d'wedwn i gyd, hardd frodyr un fryd,
 Ein Hiaith a barhao, a llwyddiant a'n cadwo;
 Heb loes, trwy bob oes, trwy bob oes, tra bo byd!

BYRDWN,—A d'wedwn i gyd, &c.

J. JONES, GLANYGORS.

HIRAETH Y BARDD AM EI HEN WLAD.

Ton—Hiraeth y Bardd.

Er cael pleserau yn ngwlad y Sais,
 A gwel'd ei ddyfais wawber,
 Mae gwlad yr awen. geinwen gell,
 Er hyny'n well o'r haner ;
 Ei hawel iach, a'i melus ddw'r,
 A chyflwr ei thrigolion,—
 Wrth gofio'i Beirdd rhyw hiraeth draidd
 Drwy giliau'r wanaidd galon.

Braidd na dd'wedwn yn ddi wad
 Mai nefol wlad yw Cymru ;
 O, na b'ai 'nhraed yn sengu ar hon,
 Ar finion ceinion Conwy.

Ac O, mor gynar yn ein gwýdd,
 Ar bren frig. bydd y bronfraith,
 A'i nodau 'n glir, newidiog lef,
 Yn moli'r nef mewn afaeth ;
 A'r enwog fwyalch, gyda'r dydd,
 Ar gan a rydd ogoniant,
 Ar frigyn pren, dan glogwyn serth,
 Gæadnerth uwch y goednant.

Braidd, &c.

Mae'r Sais yn dangos im' bob dydd,
 Mewn gwir, ei rydd hawddgarwch ;
 A'r nos caf ganddo wely clyd,
 A digon byd o degwch ;
 Ond pan fo'm corph yn huno'n ber,
 Ar wely tyner madblu,
 Fe gwyd fy yspryd, ac fe 'hed
 I 'mweled a thir Cymru.

Braidd, &c.

Ac wedi deffro gyda'r dydd,
 Mor bruddaidd fydd y galon
 Nid daear Cymru fydd fy lle,
 Ond canol tre' Manceinion ;

Cyn codi'r haul o'r dwyrain draw,
 Yr yspryd ddaw i'w lety,
 I brudd fyfyrion fel y bu
 Yn nghanol teulu Cymru.
 Braidd, &c.

Yn nyffryn Conwy mae fy nhad
 Yn nghanol mad gyfeillion,
 Ac yno bydd nes geilw Duw,
 Ar alwad, wyw farwolion :—
 Cael benthyg bedd wrth ystlys hwn
 A wir ddymunwn i'nau,
 I orphwys nes daw'r meirw'n ol
 O garchar ingol angau.

Braidd na dd'wedwn yn ddiwad
 Mai nefol wlad yw Cymru ;
 O, na b'ai 'nhraed yn sengu ar hon
 Ar finion ceinion Conwy.

Llansantffraid G.C.

JOHN JONES.

MOLAWD CYMRU.

Ton—Rhyfelgyrch Gwyr Harlech.

Henffych well i wlad fy nghalon,
 Llwyddiant i ti Gymru dirion ;
 Bendith i dy feibion dewrion,
 A dy ferched glân ;
 Peraidd yw dy hynod hanes,
 I wresogi serch fy mynwes ;
 Tra bo 'ngwaed yn llifo'n gynnes
 Caraf wlad y gân ;
 Anwyl wlad fy nhadau,
 Caraf dy fynyddau,
 Creigiau glwysion uwch y nant,
 Ymwelant a'r cymylau ;
 Dolydd a dyffrynoedd dyfnion,
 Ffrydiau clir a llynau llawnion,
 Adlewyrchant flodau tlysion
 Yn eu dyfroedd glan :

Hiraeth sydd i'm llethu,
 Am anwyllion Cymru ;
 Ow ! na chawn fy mhws yn llawn,
 A chred a dawn i'm denu
 Adre'n ol i blith fy nheulu,
 A chyfeillion i'm croesawu :
 Yn olynawl gwnawn folianu
 Cymru, gwlad y gan.

Mil melusach i fy nghalon,
 Na mwynderau gwlad y Saeson
 Cig a gwin, a da, a digon,
 Ydyw gwlad y gan ;
 Nid oes modd i 'ngwen lawenu,
 Tra bo fenaid yn hiraethu,
 Am fynyddoedd cribog Cymru,
 A'i dyffrynoedd glan,
 Nid y llawn heolydd,
 Mwg a thwrff y trefydd :
 Nid y byd, a'i olud drud
 Sy'n denu bryd y prydydd,
 Ond afonydd, gwyrddion ddolydd,
 Sw'n yr awel yn y coedydd,
 Cymau, glynau, bryniau, bronydd,
 Cymru, gwlad y gan ;
 Cara'r oen y ddafad,
 Cara mân ei chariad,
 Cara'r cybydd bwrs yn llawn
 A dyn a dawn ei dyniad ;
 Cara'r babi fron ei fami,
 Caraf finau'r wlad wy'n foli'—
 Duw a wyr mor anwyl i mi
 Ydyw Cymru lan,

TALHAIARN:

“CYFLAFAN MORFA RHUDDLAN.”

TON—“*Morfa Rhuddlan.*”

CILIA'R haul draw, dros ael bryniau hael Arfon ;
 Lleni'r nos sy'n myn'd dros ddol a rhos weithion ;
 Pob rhyw chwa ymaith a gilia o'r llwyni :
 Ar fy nghlust draw mae, ust, y dôn yn dystewi ;
 Dan fy mron clywai'm llon galon yn curo,
 Gan fawr rym digter llym, wrth i'm fyfyrio
 Ar y pryd pan fu drud waedlyd gyflafan,—
 Pan wnaed brad Cymru fad ar Forfa Rhuddlan.

Trwy y gwyll gwelaf ddull teryll y darian ;
 Clywaf si eirf heb ri' arni yn tincian,
 O'r bwâu gwyllt mae'n gwau, saethau gan sio ;
 A thrwst mawr, nes mae'r llawr rhuddwawr yn siglo ;
 Ond uwch sain twrf y rhai'n, ac ochain y clwyfawg.
 Fry hyd nef clywir cref ddolef Caradawg, —
 “ Rhag gwneyd brad ein hen wlad, trôwn eu câd
 weithian,
 Neu caed lloer ni yn oer ar Forfa Rhuddlan ”!

Wele fron pob rhyw lon Frython yn chwyddo,—
 Wele'u gwedd, fel eu cledd fflamwedd, yn gwrido ;
 Wele'r fraich rymus fry'n dyblu'r ergydion ;
 Yn eu nwy' torant drwy lydain adwyon :
 Yr un pryd Cymru i gyd gyfyd ei gweddi,—
 “ Dod yn awr nerth i lawr, yn ein mawr gynt,
 Boed i ti, O ! ein Rhi, noddi ein trigfan ;
 Llwydda'n awr ein llu mawr ar Forfa Rhuddlan.”!

Troswyf daeth, fal rhyw saeth, alaeth a dychryn,
 Och ! rhag bost bloeddiau tost ymfrost y gely'n :
 Ond O ! na lawenha, fel a wnai orchest ;
 Nid dy rym, ond dy ri' ddug i ti goncwest,
 Ow ! rhag braw'r dorf sy draw'n gwyliaw o'r drysau
 Am lwydd cad Cymru fad,—rhaf ar ei harfau ;
 Mewn gwyllt fraw i'r geillt fry, rhedy pob oedran,
 Wrth wel'd brad gwyr eu gwlad ar Forfa Rhuddlan.

Bryn a phant, cwm a nant, lanwant à'u hoergri,
 Traidd y floedd draw i g'oeedd gymoedd Eryri :
 Yr awr hon y mae llon galon hen Gymru,
 Am fawr frêg ei meib teg, gwiwdeg, yn gwaedu :
 Braw a brys sydd drwy lys parchus Caradog ;
 Gwaeddi mawr fyn'd i lawr flaenawr galluog ;
 Geilw ei Fardd am ei fwyn delyn i gwynfan,
 Ac ar hon tery dôn hen " Forfa Rhuddlan." !

Af yn awr dros y llawr gwyrddwawr i chwilio ;
 Am y fan mae eu rhan farwol yn huno :
 Ond y mawr Forfa maith yw eu llaith feddrod ;
 A'i wyrdd frwyn, a'r hesg lwyn, yw eu mwyn gofnod,
 Ond caf draw, gerllaw'r Llan, drigfan uchelfaith
 IOAN lân, hoffwr cân, diddan gydymaith ;
 Ac yn nhy'r Ficar fry, gan ei gu rian,
 Llety caf, yno'r âf o Forfa Rhuddlan.

I. G. GEIRIONYDD.

CYMRU LAN, GWLAD Y GAN.

Ton—Cymru Lan.

Pa wlad sy mor bêrswynol a'n gwlad hynodol ni,
 Pob bryn a dyffryn siriol sydd o anfarwol fri !
 Gorenwog yw pob ardal am wyr sy'n cynal can,
 A rhydd yw ein mynyddoedd, a llon ein glynoedd glan.

BYRDWN.

Cymru lan gwlad y gan, Cymru lan gwlad y gan,
 Dy feibion oll a unant o hyd yn ddi wahan,
 Mewn moliant, clod, a bri, i'th anrhydeddu di,
 A'th garu yn oesoesoedd, Cymru lan gwlad y gan.

Dysgleirio wna dy awen fel seren yn mhob Sir
 Dysgleiriodd yn foreuol, a dysglaer fydd yn hir ;
 Gwladgarwch sydd yn gwenu i ddenu nerth dy ddawn
 I ganu dy ogoniant o dant a chalon lawn ;

Cymru lan gwlad y gan, &c.

Dedwyddyd a thangnefedd, a rhinwedd fo i'rh ran
 A'th lwyddiant fo ar gynydd o for i fynydd ban,
 Monwesa dduwies Rhyddid, hoff Ryddid lan ei phryd
 Nes byddo ei hathrylith yn fendith i'r holl fyd.

Cymru lan gwlad y gan, &c.

TALHAIARN.

YR HEN AMSER GYNT.

Ton—Auld Lang Syne.

Er troion byd, ei wên a'i wŷg,
 A llawer dyrys hynt,
 Tra melus ydyw galw i gof
 Yr hen amser gynt.

Er mwyn yr amser gynt, fy ffrind,
 Yr hen amser gynt,
 Ni wnawn yn llawen heno er mwyn
 Yr hen amser gynt.

Ar hyd y maesydd clywid sain
 Ein hadlais gyda'r gwynt,
 Tra'n ddiyn ein diniwaid gamp,
 Yr hen amser gynt.

Dod law mewn llaw, fy nghyfaill Iloa,
 Aed gofal byd gan wynt ;
 Ni wnawn yn llawen heno er mwyn
 Yr hen amser gynt.

Difyrid ni wrth godi a gwel'd
 Y barcud yn y gwynt ;
 Ond tyfa'r gwellt lle sangem ni
 Yr hen amser gynt.

Dod law mewn llaw, &c,

Ar ddyddiau hafaidd chwythu wranem
 Y dyfrgloch gyda'r gwyni,
 Heb feddwl fawr mai felly yr ai
 Yr hen amser gynt.

Dod law mewn llaw, &c.

Ar ol yr wyn hyd lethrau bron;
 Y rhedem ar ein hynt ;
 Nid mwy diniwaid hwy na ni,
 Yr hen amser gynt, &c.

Dod law mewn llaw, &c.

Ar ôl y gâd yn mhell o dre,
 Y rhoisom lawer hynt,
 Ac ofn wynebu cartre'n ol,
 Yr hen amser gynt.

Dod law mewn llaw, &c.

A lluniem ryw ryfeddod fawr
 A welsem ar ein hynt,
 I foddio 'n mam rhag cerydd hon,
 Yr hen amser gynt.

Dod law mewn llaw, &c.

Pa fodd y dichon fyn'd ar goll
 Un rhan o'r mabol hynt ;
 Tra cofiaf sill am danat ti,
 Bydd cof o'r amser gynt.

Dod law mewn llaw, fy nghyfaill llon,
 Aed gofal byd gan wynt ;
 Ni wnawn yn llawen heno er mwyn
 Yr hen amser gynt.

IEUAN GLAN GEIRIONYDD.

NOS SADWRN Y GWEITHIWR.

TON—*Nos Sadwrn y Gweithiwr.*

Pa beth a welaf?—gweithiwr draw,
 A chaib a rhaw mewn rhych,
 A phwys a thristwch byd, a'i wg
 A'i gwnaeth yn ddrwg ei ddrych ;
 Ond er ei fod mor llwm i'w gael,
 Yn glytiog wael ei wawr,
 Nos Sadwrn deifl ei galed waith,
 A'i ludded maith i lawr.

O gwel mor glytiog garpiog yw
 Yn ceisio byw'n y byd :
 Heb ond prin ddigon at ei draul
 Yn nghysgod haul o hyd,
 Ei gylla weithiau'n gwaeddi'n groch,
 Pob dimai goch ar goll ;
 Ond daw nos Sadwrn—gyda llôg
 Fe gaiff ei gyflog oll.

Mae blin a chaled waith y dydd,
 Hyd ffosydd gyda'r ffyrdd,
 Bron a gorlwytho'i babel frau,
 Mae dan ofidau fyrdd :
 Pa'm mae'n gwirfoddol oddef dan
 Ei ffwdan? adyn ffod l
 Ah ! mae ei olwg ar ryw lon
 Nos Sadwrn eto'n ol.

Cyn codi'r haul y bore rhed
 A'i fwyd a'i fased fach,
 Pib fer yn cuddio rhan a'i mwg
 O'i wridog olwg iach ;
 Pan fyddo hunawg wyr mawr glod
 Yn bod heb symud bys,
 Bydd e'n llafurio'n ol ei drefn
 A phen a chefn yn chwys.

Gan yr uchelwr mae ei barch
 Yn ail i farch neu fôl ;
 Pob un yn cerdded hyd ei ben,
 Ail pont-bren ceubren cul,
 A phlant ei feistr, cy'd a'i goes,
 Rydd iddo loes neu lach ;
 Ond caiff nos Sadwrn gartre'i hun,
 A bod yn frenin bach.

CAWRDAF.

YMWELIAD Y BARD D A THRE'R BALA.

Ton—Ymweliad y Bardd a'r Bala.

I dref y Bala yr aeth y Bardd,
 I edrych am ei dad ;
 Aeth dros y ty, a thrwy yr ardd,
 Gan waeddi " O fy nhad !—
 Nid yw fy nhad yn unrhyw fan,
 Os nad yw yn y bedd ;"
 Atebai cæreg iddo'n wan,
 Dywedai,—“ Yn y bedd !”

“ Pa le mae Gwen, fy anwyl Gwen,
 Fy chwaer pa le'r wyt ti ?
 Os wyt yn fyw, anwylaf Gwen,
 Ateba, ' Wele fi '—
 Ni chlywaf lais, mawr yw fy mraw,
 Wyt tithau yn y bedd ?”
 Atebai'r gareg oedd gerllaw,
 Dywedai “ Yn y bedd !”

“ Fy mam, fy mam, anwylaf fam !
 A ro'isr im' faeth a mât,
 O dywed im', fy mam, paham
 Mae'r gadair hon yn wag ?
 Fy mam, fy mam, fy mam, fy mam
 Wyt tithau yn y bedd ?”
 Atebai'r gareg ateb gam,
 Dywedai,—“ Yn y bedd !”

“ Mae'r tŷ yn dywyll drwyddo draw,
 A'r ardd â'i blodau'n wyw ;
 Na'm tad, na'm mam, na'm chwaer gerllaw,
 Ni welaf mwy yn fyw ;
 Maent hwy yn cysgu'n min y Llyn,
 Mewn gwely pridd eu tri :
 Mi wylaf dro wrth feddwl hyn,
 Mae hiraeth arnaf fi.” —TEGID.

CANIAD Y GOG I ARFON.

Ton—Morwynion glan Meirionydd.

Perffaith yw dy waith, Duw Iôr,
 Mae tir a mor yn dystion ;
 Da a didwyll gwnaed hwy oll,
 Heb goll na dim diffygion ;
 Ond o'r cyfan goreu gwnaed
 Goreuwlad wirfad Arfon.

P'le mae cynar ganiad côg
 Mewn glaswydd deiliog glwysion,
 Dysnion neint, a chreigiau serth,
 A phrydferth reieidr mawrion ?
 Ar Eryri uchel wawr,
 Yn erfawr lanau Arfon.

Defaid filoedd sy'n porfau
 Ar hyd ei bryniau meithion,
 Ei gweunydd heirdd, a'i bronnydd teg,
 Sy'n llawn o wartheg duon,
 Da yw'r pysgod sydd yn gwau
 Yn nyfnion lynau Arfon.

Clywir adlais bêr ddibaid
 Y clau fugeiliaid gwiwlon,
 A'u chwibaniad hyd y dydd,
 Ar hyd ei gelltydd gwylltion,
 A diniwaid frefiad wyn
 Ar irfwyn fryniau Arfon.

Clywir miwsig^gbwysig, ber,
 Trwy fwynder twrf y wendon
 Nos a dydd y sydd a'i si,
 Yn golchi'i glanau gleinion ;
 O! na chawn i rodio o hyd
 Hyd forsin hyfryd Arfon.

P'le mae amlaf geinciau per
 Y gwiwber delynnori n :
 P'awb yn canu yn eu cylch,
 O'n hamgylch f'wyn benillion,
 Yn gariadlon, gyson gor,
 Yn ngoror erfai Arfon.

P'le mae mwynder doethder dysg
 Ac ad'ysg teg agweddion,
 Odlau cu, a mylru mawl,
 A siriawl ddoniawl ddyinion ?
 P'le mae'r Beirddion mwya'u clod,
 Anorfod, ond yn Arfon.

Pwy sydd bur, heb ddydl na brad,
 Drwg fwriad na dic'ellion ?
 Pwy sydd hawddgar, heb naws gwg,
 Neu gynal drwg amcanion ?
 Pwy sydd un, ac un i gyd,
 Ond dewrfeib hyfryd Arfon.

Hardd yw'r haul ar foreu teg
 A gloywdeg f'uwch gwaelodion ;
 Hardd a llon yw meillion Mai,
 Ar c'difai lenydd afon,—
 Harddach yw menywod mad
 Goreuwlad wirfad Arfon.

P'le y ceir mewn dolur du
 Anadlu iach awelon,
 Yfed dyfroedd mawr eu rhin
 Sydd well na gwin i'r galon ?
 P'le ceir llaeth a mel heb drai ?
 Yn erfai frodir Arfon.

Pa le y bu'm yn chwareu gynt
 Yn chwyrn fy hynt a'm troion,
 Pa oedd nwyf maboliaeth clau
 Yn bywiocau fy nghalon,
 Heb drafferthion i'm pruddhau ?
 Ar erfai frodir Arfon.

Y mae hiraeth i'm trynhau
 Am weled glanau gleinion,
 Hyfryd ddolydd, maesydd maith
 Sy'n lanwaith heb elynion,
 Ac am greigiau, muriau mawr,
 Clogwynfawr, erfawr Arfon,

Os da gan glaf ar fin ei fedd
 Gael adwedd o'i glefydion—
 Os da gan grwydryn yn y nos,
 Cael lletty diddos boddlon,
 Gwell gan i gael lloches glyd
 O dwrf y byd yn Arfon.

Gwyn fy myd pe cawn yn awr
 Adenydd y wawr dirion ;
 Hedeg wnawn dros for a thir,
 Yn gywir ac yn union,
 A disgynwn yn ddiau
 Ar erfai fryniau Arfon.

Duw a'm dycco cyn fy medd
 I fyw mewn hedd a digon,
 A chael treulio'm gweddill oes
 Heb loesau anfelusion ;
 Hyn yw'm harch, a Duw yn dad,
 Yn mynwes wirfad Arfon.

A phan y delo diwedd oes,
 A duloes angau creulon,
 A d'od o'r dydd i'm rhoddi'n fud
 Yn nistaw fyd marwolion,
 Boed i'm corph gael bedd yn nghlái
 A daear erfai Arfon.

IEUAN GLAN GEIRIONYDD.

MYFYRDOD AR LANAU CONWY.

Ton—Earl of Moira.

Ar lanau Conwy ar fy nhro,
 Pan byddwy'n rhodio ar hynt,
 Ni fedraf lai na dwyn ar go',
 Wrth gofio'r dyddiau gynt :
 Pa le mae'm hen gyfeillion llon,
 A'm cyd-chwaryddion res ;—
 Er chwilio yma amser hir,
 Ni byddai'n wir ddim nes ;
 Ond gwaith ffol—dyddiau'n ol,
 Ni wiw eu 'morol mwy.

Bum yno ganwaith ar fy nhro,
 Yn rhodio ar ei hyd,
 Pan oedd difrifwch heb fy nal,
 Heb ofal yn y byd ;
 A'm cyd-gyfeillion, wiwlon wedd,
 Un tuedd oeddynt hwy ;
 Ffarwel yn awr i'r dyddiau gynt,
 Ni welir mo'nynt mwy ;
 Ond pa les—nid wyf nes,
 Nid oes dim o'u hanes hwy.

Fe ddarfu'm hen gyfeillion hael,
 Fy ngadael braidd i gyd ;
 Mae rhai yn gorwedd dan y gwys
 Yn llwyr o bwys y byd ;
 A'r rhai sy'n fyw gwasgarant oll
 Ar goll i'r pedwar gwynt ;—
 Mae hyny bron a dwyn fy ngho'.
 Wrth gofio'r dyddiau gynt :
 Aent ar hynt fel y gwynt,
 Ac ni welir mo'nynt mwy.

PILL.

CAN Y BARD D WRTH FARW.

Ton—Llwyn On.

Gwnewch imi feddrod wrth ffrydlif y mynydd,
 Na cherfiwch un linell i nodi fy hynt :
Ac yno telored glâs donau'r afonydd
 Eu cerddi yn gymhlith â chwiban y gwynt.
 Na chlywer un Och ! lle mae'r prydydd yn huno ;
 Na choder un cofnod i ddangos y fan ;
 Yno na weler un serchawg yn wyllo,
 I dori â'i dolef dawelwch y lan.

I bydru fi dodwch heb gwynion na galar,
 Diamdo, dienw, ac unig fy ngwedd ;
 Na dd'wedwch fy mod i mor drist ac edifar
 Wrth deithio i dawel ystafell y bedd.
 Pan ddychwel y Gwanwyn uwchben fy ngorweddle
 Pored y milyn dywarchen fo gwerdd ;
 Pan chwifia y grug yn awelon y bore,
 Adar y moelydd a ganant fy ngherdd.

Iesu, fy Nuw ! yn y preseb a rwymwyd,
 Maddeu fy nghanmwedd—tro drallod yn hedd ;
 Ti'r hwn dros ddyn pechadurus groeshoeliwyd,
 Cofia fy lludw yn nghilfach y bedd !
 Pan seinio yr udgorn trwy'r nen ddychrynedig
 Alargan ddiweddaf y ddaear a'r mor,
 Gâd i mi orphwys lle cân y gwardig
 Gathlau i'th foliant, fy Ngheidwad, fy Ior.

CAN Y MELINYDD.

Ton—Person Paris.

Mae genyf dy cysurus,
 A melin newydd spon,
 A thair o wartheg blithion.
 Yn pori ar y fron.

Mae genyf drol a cheffyl,
 A merlyn bychan twt,
 A deg o ddefaid tewion,
 A mochyn yn y cwt.

Mae genyf gwpwrdd cornel
 Yn llawn o lestri te,
 A dreser yn y gegin
 A phobpeth yn ei le,

Er hyn i gyd mae 'nghalon
 Yn brudd o dan fy mron,
 O eisiau meinir hawddgar
 I wneyd fy myd yn llon.

A ddo'i di, Mari anwyl,
 I'r Eglwys gyda mi?
 Fy nghariad, a fy nghoron,
 A'm calon ydwyt ti.

Os do'i di, fy anwylyd,
 I'm gwneyd yn ddedwydd wr,
 Cei gariad y melinydd
 Tra try yr olwyn ddw'r.

Y BWTHYN BACH TO GWELLT.

Fe gollais fy Nhad, fe gollais fy Mam,
 Pan oeddwn yn blentyn bychan,
 Nid ydwyf yn cofio dim am yr un
 O'r ddau oedd mor hoffus o'u baban ;
 Cymerwyd fi gan fy Nain meddynt hwy
 Mewn storm o daranau a mellt,
 A magwyd fi gan fy Nain ar y plwy',
 Yn y bwthyn bach tô gwellt.

Cydgan—Pan yn rhoio byddai'r daran
 Ac yn gwibio byddai'r mellt,
 O ! 'rwy'n cofio fel y llechwn,
 Yn y bwthyn bach tô gwellt.

Pan byddai y rhew a'r eira gwyrn,
 O amgylch y bwthyn bychan,
 Eisteddwn yn ddedwydd ar fy stol fach;
 A chanwn ar ben yr hen bentan;
 A'm Nain yn dysgu adnodau i mi
 Yn nghanol ystorom o fellt;
 Rhyw nefoedd fach gu i mi a fy Nain,
 Oedd y bwthyn bach tô gwellt:

Cydgan—Pan yn rhoi byddai'r daran, &c.

Fe fyddwn yn chwareu gwmpas yr ardd
 Cartrefle y diwyd wenyn,
 A difyr y treuliais i lawer awr;
 I chwilio am nyth aderyn:
 Mae hiraeth dwys yn fy nghalon brudd.
 Nes ydyw bron myned yn ddellt;
 O na b'aw eto yn blentyn fy Nain,
 Yn y bwthyn bach tô gwellt.

Cydgan—Pan yn rhoi byddai'r daran, &c.

Fe fyddwn yn myned gyda fy Nain,
 Trwy'r ddôl gan ei galw'n fami,
 A hithau mewn hiraeth dwys am fy mam;
 O'i chalon oedd gynt yn fy ngharu;
 A chyda hi byddwn i yn mhob man,
 Am dillad yn wynion a glan,
 Ond erbyn hyn mae fy Nain yn y Llam
 Yn huno yn y graian mân.

Cydgan—Pan yn rhoi byddai'r daran
 Ac yn gwibio byddai'r mellt,
 O! 'rwy'n cofio fel y llechwn,
 Yn y bwthyn bach to gwellt.

BUGAIL ABERDYFI.

Ton—O tyr'd yn ol fy ngeneth wen.

Mi geisiaf eto ganu cân
 I'th gael di 'nol, fy ngeneth lân,
 I'r gadair siglo, ger y tân,
 Ar fynydd Aberdyfi :
 Paham, fy ngeneth hoff, paham
 Gadewaist fi a'th blant dinam ?
 Mae Arthur bach yn galw ei fam,
 A'i galon bron a thori ;
 Mae'r ddau oen llaw-faeth yn y llwyn,
 A'r plant sy'n chwateu gyda'r wyn,
 O tyr'd yn ol, fy ngeneth fwyn,
 I fynydd Aberdyfi.

Nosweithiau hirion, niwliog, du,
 Sydd o fy mlaen, fy ngeneth gu,
 O agor eto ddrws y ty,

 Ar fynydd Aberdyfi ;
 O na chait glywød gweddi dlôs
 Fy Arthur bach cyn cysgu'r nos,
 A'i ruddiau bychain fel y rhos,
 Yn wylo am ei fami !

Gormesaist lawer arnaf, Gwen,
 Gormesais inau,—dyna ben,
 O tyr'd yn ol, fy ngeneth wen,
 I fynydd Aberdyfi.

Fel hyn y ceisiaf ganu cân
 I'th gael di 'nol, fy ngeneth lân,
 I eistedd eto ger y tân,

 Ar fynydd Aberdyfi ;
 'Rwy'n cofio'th lais cyn canu'n iach,
 Ond fedri di na neb o'th âch,
 Ddiystyru gweddi plentyn bach
 Sydd eisiau gwei'd ei fami ;
 Rhyw chwareu plant oedd d'weyd Ffarwel,
 Cyd-faddeu wnawn, a dyna'r fel,
 Tyr'd dithau'n ol fy ngeneth ddel
 I fynydd Aberdyfi.

CEIRIOG

**MAE PAWB A PHOBPETH YN MYN'D
YN HEN.**

A fuost ti'n meddwl y cyfaill mwyn,
Fod amser yn llithro dan dy drwyn ;
O ddydd i ddydd, ac o awr i awr,
Wrth deithio, sefyll, ac eistedd i lawr ;
Wrth fwyta, ac yfed, a rafio'n ffri,
Yn nghwsg, ac yn effro, ffwrdd a ni,
Ac os edrychwn drwy ddrws ei drên,
Cawn bawb a phobpeth yn myn'd yn hên.

Tra casgla'r cybydd, tra gwaria'r hael,
Tra llid a mwynder, colled a mael ;
Tra cara'r llanciau lodesi glân,
Tra plethaf finau englyn a chan,
Tra'r bonedd yn byw ar winoedd a bîr,
A'r tlawd yn griddfan yn ngweithdy'r sir,—
Pasio mae'r byd drwy alar a gwên,
A phawb a phobpeth yn myn'd yn hên.

Mae'r hen Eisteddfodau difyr gynt,
A'r delyn a'r gerdd, yn dilyn y gwynt,—
Chwar'yddion Llundain uwch ben y llu,
Sy'n tywallt eu dawn, a'r beirdd naill du !
Yr hen ddatgeiniaid yn dianc o'r byd,
Awdl y Gadair, a'r cwbl i gyd,—
Mae'r iaith Gymraeg a'i llafar a'i llen,
A phawb a phobpeth yn myn'd yn hên.

Y Gwyliau sy'n dod, a'i gelyn glas,
A'i gyflaith, a'i bwding, a'i wyddau bras ;
Daw'r plant i enyn chwerrhiniad iach,
I'r aelwyd gynes yn Nghymru bach ;
Ac er na welsoch chwi cystal erioed,
Mae Ann a Timothy'n cario'u hoed,—
O wyl i wyl, ac o wên i wên,
Maent hwythau hefyd yn myn'd yn hên.

Glendid a chryfder sy'n myn'd yn myn'd,
 A chwith yw edrych ar lawer ffrynd ;
 Mae Jane yn rhedeg i oedran syn,
 Ac Wmffra'n dallt fod ei wallt yn wyn ;
 Camach yw gwar Meredydd a John,
 Meinach yw trwyn Miss Edith y Fron ;
 A danedd gosod sy lon'd ei gen,
 Yn wir, mae hithau'n myned yn hen.

Canwyd y clych. ond doe ydoedd hyn,
 Diwrnod priodas Elen y Bryn ;
 Bellach y wledd anghofiodd y wlad,
 Mae Elen yn fam. a Gwilym yn dad ;
 Wrth gym'ryd eu siawns yn glaf ac yn iach,
 Ymguro a byw, a magu rhai bach,
 Nesu mae'r trwyn i ymyl yr en
 A Gwilym ac Elen yn myn'd yn hen.

Yn 'hedeg mor gyflym un dim nid oes,
 I'w hynt a phedwar tymhor ein hoes,—
 Mynyd yn chwareu, mynyd yn llanc,
 Mynyd yn wr, a mynyd ar dranc :
 Waeth ini d'lodi mor llawer iawn,
 Na chyfoeth a moethau y palas llawn,—
 TARTH ydyw pleser, gwagder yw gwen,
 Mynyd yw'n hoes, rhaid myned yn hen.

TREBOR MAL.

CLYCHAU ABERDYFI.

Ton—Clychau Aberdyfi.

Os wyt ti'n fy ngharu i,
 Fel r'wyf fi'n dy garu di
 Mal un, dau, tri, pedwar, pump, chwech,
 Meddai Clychau Aberdyfi.
 Un dau, tri, pedwar, pump, chwech,
 Mal un, dau, tri, pedwar, pump, chwech,
 Meddai Clychau Aberdyfi :

Hoff gan fab yw meddu serch,
 Y ferch mae am briodi ;
 Hoff gan inau yn mhob man,
 Am Morfydd Aberdyfi,
 Os wyt ti'n fy ngharu i,
 Fel 'rwyf fi'n dy garu di,
 Mal un, dau, tri, pedwar, pump, chwech,
 Meddai Clychau Aberdyfi.

Tra bo llanw, trai, a lli,
 Yn fy nghalon caraf di :
 Mal un, dau, tri, pedwar, pump, chwech,
 Meddai Clychau Aberdyfi.
 Os y byddi'n wraig i mi,
 Ni flinaf fi'n dy hoffi ;
 Beunydd gwnawn ymlawenhau,
 Fel Clychau Aberdyfi.
 Os wyt ti'n fy ngharu i,
 Fel rwyf fi'n dy garu di,
 Mal un, dau, tri, pedwar, pump, chwech,
 Meddai Clychau Aberdyfi.

ANWYLAF WLAD FY NGHALON.

Anwylaf wlad fy nghalon
 Am byth y caraf di,
 Mae miwsig dy awelon,
 Yn anwyl iawn gan i ;
 Hoff genyf yw dy fryniau,
 Hardd yw pob rhan o'th dir,
 Ond harddach yw, anwylaf wlad,
 Dy gariad at y gwir.

Cydgan—Anwylaf wlad fy nghalon,
 O hyd fydd Cymru wen,
 Dylifed holl fendithion
 Y Nefoedd ar ei phen.

Dy anwyl blant a'th garant
 Tra bywyd yn eu gwaed,
 Dy holl elynion fynant
 I lawr o dan eu traed :
 Dan iau gaethiwus estron
 Bu'th feibion amser hir,
 Er hyn glynasant wrth eu gwlad
 A'u cariad at y gwir.

Anwylaf wlad fy nghalon, &c.

Er gormes ei gelynyon
 Bydd Cymru'n "Gymru rydd,"
 Ac anwyl gan ei meibion
 Hyd wawr yr olaf ddydd :
 Eu Ner bendigaid folant
 Tra Brython yn y tir,
 Eu hiaith a gadwant er pob brad,
 A'u cariad at y gwir.

Anwylaf wlad fy nghalon, &c.

GELERT CI LLYWELYN.

O'r helfa ar ei fuan farch,
 Llywelyn ddaeth i'w lys,
 Gan seinio'i gorn, ac ato daeth
 Ei deulu oll ar frys :
 Pan welodd wedd ei rian lan,
 A'i gwenau hawddgar hi,
 ' Pa le mae Gelert ?' ebai ef,
 ' Pa le mae 'mhlentyn i ?
 Paham na ddaw y ddau yn awr
 A chroesaw mawr i mi ?
 ' Mae'th fab mewn hûn—a a thybiais i
 Fod Gelert gyda thi.'

'Gad imi wel'd fy anwyl fab
 A'i wasgu at fy mron;
 Fy nbrysor penaf ydyw ef
 Ar wyneb daear gron.'

Ar frys yr aeth i'w 'stafell ef,
 Ca'dd yno ddychryn mawr;
 'Roedd cryd ei blentyn wedi ei droi,
 A gwaed yn rhuddo'r llawr!
 'Fy mhlentyn tyner,' ebai ef,
 'Fy mhlentyn anwyl i!
 'Rhyw lofrudd â'i ysgeler law
 Derfynodd d'ainioes di!
 A Gelert o ryw dywyll le
 A gododd ar ei draed;
 A'i lygaid yn melltenu tân,
 A'i safn yn goch gan waed:
 'Ai ti a wnaeth y weithred hon?
 O elyn tost i mi!
 A sydyn gyda'i gleddyf llym
 Trywanodd ef ei gi.

A! dyma lais o dan y cryd,
 Fel miwsig angel syw;
 Ymgrymu wna y fam a'r tad,—
 Mae'r plentyn eto'n fyw!
 Wrth droi y dillad gwelant ef,
 Yn gwenu yn ei hun;
 Ac wrth ei ben yn gelain gorph,
 Mae blaidd o aflan lun.
 Llywelyn dd'wedai yn ei loes,
 'O! Gelert, ffyddlon gi,
 Achubaist di ei fywyd ef,
 A lleddais inau di!
 Cei faen o farmor ar dy fedd,
 Anrhydedd fydd dy ran'—
 A'r ci wrth lyfu llaw y llyw,
 Fu farw yn y fan.

TALHAIARN.

BEDD Y DYN TYLAWD.

Ton—Bedd y dyn tylawd.

Is yr ywen ddu ganghenog
 Twmpath gwyrddlas gwyd ei ben,
 Fel i dderbyn o goronog
 Addurniadau gwlyth y nen ;
 Llauer troed yn anystyriol
 Yn ei fathru'n fynycb gawd,
 Gan ysigo'i laswellt siriol.
 Dyna fedd y Dyn Tylawd.

Swyddwyr cyflog gweithdy'r undeb
 A'i hebryngodd ef i'w fedd,
 Wrth droi'r briddell ar ei wyneb
 Nid oedd deigr yn ar un wedd,
 'Nol hir frwydro a thrafferthion,
 Daeth i ben ei ingol rawd :
 Noddfa dawl rhag anghenion,
 Ydyw bedd y Dyn Tylawd.

Mae'r gareg arw a'r ddwy lytheren,
 Dorodd rhyw anghelfydd law,
 Gyd-chwareuau ag e'n fachgen,
 Wedi hollti'n ddwy gerllaw ;
 A phan ddelo Sul y Blodau,
 Nid oes yno gâr na brawd
 Yn rhoi gwyrdd-ddail na phwysiau
 Ar lwm fedd y Dyn Tylawd.

Ar sedd fynor nid yw'r Awen
 Yn galaru uwch ei lwch,
 A chyn hir drwy'r las dywarchen
 Aradr amser dyna'i swch ;
 Un a'r llawr fydd yr orphwysfa,
 Anghof drosti dyn ei ei hawd ;
 Ond er hyny angel wylia,
 Ddaear bedd y Dyn Tylawd.

IOAN EMLYN.

Y 'DERYN PUR.

Ton—Y 'Deryn Pur.

Y 'Deryn pur a'r adain las,
 Bydd imi'n was dibryder,
 O brysia'n brysur at y ferch
 Lle rhois i'm serch yn gynar ;
 Dos di ati, dywed wrthi
 Fy mod i'n wylo dw'r yn heli,
 Fy mod i'n irad am gael ei gweled
 Ac o'i chariad yn ffaelu a cherdded ;
 O ! Duw faddeuo i'r hardd ei llun
 Am boeni'r dyn mor galed.

Pan o'wn i'n hoenus iawn fy hwyl
 Ddiwrnod gwyl yn rhodio,
 Canfyddais fenyw lana'rioed
 Ar ysgafn droed yn rhodio ;
 Pan y gwelais, 'syth mi sefais,
 Ac yn fy nghalon mi feddyliais,
 Wele'r ddynes lana'r deyrnas,
 A'i gwedd yn harddu oll o'i chwmpas,
 Ni fyn'swn gredu un dyn byw
 Nad oddd hi ryw angyles.

MISS WILLIAMS.

GYDA'R WAWR.

Udganai udgorn rhyfel
 Gyda'r wawr, gyda'r wawr,
 Gwehyrai'r meirch yn uchel,
 Gyda'r wawr ;
 Bu galed iawn y brwydro,
 A'm hanwyl gariad yno
 Yn gorwedd wedi ei glwyfo,
 Gan alw am ei Weno,
 Gyda'r wawr, gyda'r wawr.

Es ynø'r boreu wedyn,
 Gyda'r wawr, gyda'r wawr ;
 I chwilio am Llewelyn, .
 Gyda'r wawr :
 Ces wel'd ei ruddiau gwelw,
 Ces glywed swn fy enw
 Oqdiar ei fin wrth farw,
 Rhyw foreu prudd oedd hwnw,
 Gyda'r wawr, gyda'r wawr.

Pob dydd rwy'n myn'd er hyny
 Gyda'r wawr, gyda'r wawr,
 At fedd y gwr wy'n garu,
 Gyda'r wawr ;
 I blanu tlyision flodeu,
 Eneiniwyd gyda'm dagrau,
 Tra'r dydd yn tafu ei oleu
 I dd'weyd y cwyd rhyw foreu,
 Gyda'r wawr, gyda'r wawr.

HEDYDD LON.

Rwy'n]disgwyl am y dydd,
 Hedydd lon, hedydd lon,
 O brofiad calon brudd
 Hedydd lon

A phan y daw mi ganaf
 A thithau am yr uchaf,
 Yn llawen i'r cynhauaf,
 Hedydd lon, hedydd lon.

Mae'r gweiriau ar y llawr,
 Hedydd lon, hedydd lon,
 Paham na's ceni 'nawr ?
 Hedydd lon,

Ai'th gywion bach a laddwyd,
 A'th nyth gan ddyn]wasgarwyd,
 A'th fron gan hiraeth dorwyd ?
 Hedydd lon, hedydd lon.

Os galar ddaw i ti,
 Hedydd lon, hedydd lon,
 I ddyn pa sail o'i fri?
 Hedydd lon,
 Os gofid ddal mewn gaf'el,
 Un esgyn fry mor uchel,
 B'le ffy'r ymdeithydd isel,
 Hedydd lon, hedydd lon.

CODIAD YR EHEDYDD.

Ton—Codiad yr Hedydd.

Cwyd, cwyd ehedydd llon
 O'th ddedwydd nyth ar ael y fron,
 I ganu yn y nen :
 Mwyn, mwyn y tonau mêl
 O'th beraidd big a'th galon ddôl
 I synu'r byd uwch ben.
 Pawb a hoffant swyn dy gân,
 Sy'n llifo'n ffrwd o fwsig ffri ;
 Nwyfus fawl dy galon lân
 Enyna dân fy awen i ;
 Anwylaf wyt o'r adar mân,
 Boed bendith Duw i ti !

Llon, llon yw'r ddaiar lawr,
 Mae'r haul yn gwenu ar y wawr
 Yn ngwrid y dwyrain dêr :
 Dring, dring ehedydd mwyn,
 Dyhidla odlau llawn o swyn
 O groesaw i dy Ner :
 Can yn Eden yn dy gryd
 A ro'ist i'r greadigaeth hardd,
 Iddi'n awr o bryd i bryd
 Alawaidd dôn o'th big a dardd,
 A chanu wnei o hyd o hyd
 Tra haul o byd a bardd.

GWENO FWYN GU.

A ddoi di, fy nghariad, i gysgod y llwyn,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu,
 I glywed yr adar yn trydar yn fwyn,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu ;
 Daw'r fronfraith i ganu ar frigyn y pren,
 A'r hedydd i gwafrio yn entrych y nen,
 A'r fwyalch i byngcio i blesio fy Ngwen,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu.

Mi wn bydd y rhosyn prydferthaf y sydd,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu,
 Yn chwenych rhoi cusan i'r gwrid ar dy rudd,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu,
 A'r lili'n adlewyrch claerwynder dy fron,
 Gan dd'weyd " O na b'awn i cyn wyned a hon,"
 A minau'n addoli dy lygad glas llon,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu.

Ar ol ini rodio drwy gydol y dydd,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu,
 Y nos wrth fyn'd adre' cei gyffes fy ffydd,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu,
 Bydd swn ein cwmniaeth yn fiwsig a medd,
 A'r lloer yn tywynu yn hoew mewn hedd,
 A'r ser yn ddysgleiriach pan welant dy wedd,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu.

O mawr yw fy mhleser a mwynder fy myd,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu,
 Pan fyddwyf yn dotio ar lendid dy bryd,
 Hei, ho, Gweno fwyn gu,
 A'm meddwl yn rhedeg o hyd ac o hyd
 Ar bethau mwy gwerthfawr na golud y byd—
 Pricdas, a chariad, a babi, a chryd.
 Hei, ho, Gweno fwyn gu.

Y MORWR MWYN.

Ton—Y Morwr Mwyn.

I nodi'r man rhoir meini hardd,
 Lle hûn rhai hoff mewn hedd,
 Ac englyn geir o fri gan fardd,
 Neu wers i gofio'r bedd ;
 Ond maen ni cheir er côf na chwyn,
 I nodi bedd y Morwr mwyn.

Yn nghladdfa'r llan gwerdd ywen sydd
 Yn gwâr gysgodi'r bedd ;
 A chesglir perion flodau blydd,
 I hulio'r gwely hedd ;
 Ond ywen las na blodau llwyn,
 Ni huliant fedd y Morwr mwyn.

Cwsg ef yn mhell o'i anwyl fro,
 A'i lân (O ! lymed) wedd,
 Lle mae timestloedd lawer tro
 Yn rhuthro tros ei fedd ;
 Ond un ar dir a ddeffry gwyn
 Mynwesawl am y Morwr mwyn.

Ac aml mae un bêr ei bron.
 Ar lan y môr fin du,
 Yn dal cyfeillach gyda'r dôn,
 Ei serch heb farw sy ;
 Ond grudd laith, llygad llawn, a chwyn,
 Sydd ganddi am ei Morwr mwyn.

Dymuniad ddaw o'i mynwes lân,
 Lle gwnaeth gwir gariad graith,
 I'r wylan ddwyn ei galar gân,
 Dros fôr a'i donau maith ;
 Fy ngeneth taw, angofia'th gwyn,
 Dy lais ni chlyw y Morwr mwyn.

Na chrwydra, Gwen, y morlan maith,
 Pob deigrin ofer yw ;
 Nis gwyr dy gariad alar chwaith,
 Na gwae dy fynwes friw ;
 Uwch gwely'r heli nid oes cwyn
 A ddeffry gwsg y Morwr mwyn.

Dwg gysur clau, ryw ddydd a ddaw,
 Y geilw'r udgorn ef,
 O eigion mor heb boen na braw,
 Caiff uno eur-blaid nef.
 Dos at yr Iôn, taer weddi dwyn,
 Cei eto gwrdd â'r Morwr mwyn.

GWENFFRWD.

YR HEN AMSER GYNT PAN OEDD BESS
 YN TEYRNASU.

Ton—The happy Days of Queen Bess.

Os oes yma rai o hil yr hen Gymry.
 Yn hoffi'r hen iaith, ac hefyd glywed canu ;
 Hyfryd i ni feddwl am yr amser aeth heibio,
 Pan oedd y byd yn dda, a'r bobl heb rwystro.

BYRDWN.

O ! faint o gyfnewid
 Yn awr sydd yn Nghymru,
 Er yr amser gynt
 Pan oedd Bess yn teyrnasu.

Nid oedd yr amser hyny fawr o eisiau arian,
 Pawb yn byw yn enwog, ar ei dir ei hunan ;
 Croesawu cerddorion y byddid wythnosau,
 Rhai i ganu hâf, a'r lleill i ganu gwyliau.

O faint o gyfnewid, &c.

Llawer math ar gân a fyddai gan y rhei'ny,
Y Symblen Ben Bys, a'r hen Hob y Deri,
Plygiad y Bedol Bach, a Marged fwyn ach Ifan,
Ar hyd y Nos, a'r hen Forfa Rhuddlan.

O faint o gyfnewid, &c.

Nid oedd yr oes hono fawr o son am drethi,
Na mesur y tiroedd, na chodi y rhenti ;
Ond undeb a chariad oedd yn mhob cym'dogaeth,
A gadael i Satan gyflogi gwyr y gyfraith.

O faint o gyfnewid, &c.

Ar brydnawn gwyliau myned byddai'r llanciau,
I ganol llanerch dêg i gadw chwareufa ganpau ;
Rhedeg a neidio y byddai'r rhai gwrol,
'Masfyd codwm clos, a thaflu maen a throsol.

O faint o gyfnewid, &c.

Nid oedd yr oes hono ond 'chydig o falchder,
Ni welwyd yn Llundain nemawr *Huberdasher* ;
A phawb hyd wlad Cymru'n byw'n ddigon llawen,
A'u dillad i gyd o frethyn ac o wlanen.

O faint o gyfnewid, &c.

'Doedd gan modryb Alis, na chwaith modryb
Modlen,
Ond bacsen am y goes, a charai i g'lymu r glocsen,
Pais o ddu'r ddafad, a chrys o wlanen deueu,
Het o frethyn tew, a chap c lian cartre'.

O faint o gyfnewid, &c.

Nid oedd gan fewyrth Shôn, ap Meurig ap Morgan
Ond cryspais o wlanen, a chlos o frethyn herpan,
Ffon o dderwen gref a fyddai yn ei ddwyllaw,—
Gwregys am ei ganol i rodio ar ol ciniaw.

O faint o gyfnewid, &c.

Ni bu yr hen bobl erioed yn yfed *brandi*,
 Ni cha'dd yr hen wragedd fawr o *dea* a *ch. ffe*
 Bara ceirch cadarn o flawd wedi rhuddo,
 Ychydig o 'fenyn ac enwyn i ginio,

O faint o gyfnewid, &c.

Er hyny 'roedd cwrw i'w gael yn rhai cyrau,
 I yfed at y beirdd am wneyd carol gwyliau ;
 'Roedd yr amser hyny ganu digon cymwys,
 A chân pawb o'r goreu cyn cychwyn i Gaerwys.

O faint o gyfnewid, &c.

Ni wiw i'r beirdd 'rwan feddwl gwneuthur canu,
 Na b'o chwech neu saith mor groes am eu barnu ;
 Er iddynt wneyd englyn, a hwnw'n broest cadwynog,
 Ni thal o mo'i ddarllen oni bydd e'n gyfochrog.

O faint o gyfnewid, &c.

Ond twrch a cherdd Seis'neg, na thal hi mo'i gwrando
 Hwn a gaiff barch p'le byna y byddo,
 A llawer Cymro balch sy'n deall canu Saes'neg,
 Ofer yn Gymraeg yw canu dim yn 'chwaneg.

O faint o gyfnewid, &c.

Ni ganwn Gymraeg er gwaetha'r rhai beilchion,
 Er cymaint eu brad, a thwyll y cyllill hirion ;
 Er cymaiyt yw hunan a dichell y Saeson,
 Ni ganwn iaith ein mam er gwaetha'r ynfydion.

Boed eto gyfnewid
 Trwy holl siroedd Cymru,
 Gwell na'r amser gynt,
 Pan oedd Bess yn teyrnasu.

YSGUBOR RHYSYN

Miwsig gan J. D. Jones, yn Alawon y Brynias.

Hen Gymro braf oedd Rhysy⁴₄
 Yn byw heb boen na brad,
 Na meddwl drwg am undyn,
 Mewn Tyddyn yn y wlad ;
 'Roedd ganddo 'sgubor fechan,
 I gadw'r yd a'r pys,
 A'i chlo oedd clicied dderwen
 Gyfodid gyda bys !

Un gauaf, pan oedd cloron
 Yn ddrud a phrinion iawn ;
 'Roedd LLYGOD MAWR ar droion
 Yn tolli'r pentwr grawn ;
 Ac er cael *trap* a'i osod,
 I warchod twll y wal,
 Parhau wnai'r pys i ddarfod,
 A'r llygod heb eu dal !

'Roedd Dic, ei fachgen henffel,
 Rhwng deg a deuddeg oed ;
 Yn gosod yn mhob cornel,
 Heb ddal yr un erioed ;
 Ond rhedodd rhyw brydnawngwaith
 Ddrychfeddwl pert i'w ben,
 Y gallai fod nhw'n ymdaith
 Trwy dwll y glicied bren !

Y nos ddrycinog hono
 Croesawyd aeres wanc,
 Mewn lletty yn nefni'r bondo,
 A'i bysedd yn y *banc* !!
 Lladmerwyd y dychymyg
 Trwy ddal arwres brad,
 Ond nid Llygoden Ffrengig,
 LLYGODEN FAWR Y WLAD !!!

GWILYM COWLYD.

FY ANWYL ROBIN BACH.

Mesur—Jeanett a Jeanott.

Draw dros frig Eryri fraith,
 Yr ymlithrai'r cwmwl rhudd,
 A gwridai ael gorllewin fawr,
 Ger gwyneb cawr y dydd ;
 O'r bwth mynyddig bach,
 Oedd draw gerllaw y llyn,
 Esgynai'r golofn gynta o fwg,
 Boreuol ael y bryn ;
 Y fwyalchen bêr o'r bongc,
 A adseiniai'r creigiau crog,
 A'i hadlais o ryw bigwrn bân,
 Atebid gan y gog ;
 Ac o draw ger godreu'r foel,
 E ddygai'r awel iach,
 I'm clust chwibaniad peraidd fwyn,
 Fy anwyl Robyn bach.
 . I'm clust chwibaniad, &c.

A fy mhiser dan fy mraich,
 Prysurwn dros y waen,
 Gan yfed peraroglaidd sawr,
 Y bloenlawr blydd o'm blaen ;
 Pob dyfyr orig fer,
 A ddygai geinder gwiw,
 O groth newydd-deb ger fy mrod,
 Hyd lethrau heirddion ffrîw ;
 Yn fy aros byddai'm ffrynd,
 Ar y gamfa geryg draw,
 A balch y rhedai'i gorgi du
 I'm cwrdd a llyfu'm llaw ;
 A phan cydgyfarfod wnaem,
 Pwy a holai f'awn I'n iach,
 Gan roi i mi gusan serchog rin,
 Ond f'anwyl Robyn bach.
 Gan roi i mi gusan, &c.

Cydgasglai'r oll o'r buch,
 Yn llonwych at y llwyn,
A'u godro wnaem ar fyr o dro,
 Gan gydymfoddio'n fwyn,
A than y ddraenen gam
 Eisteddem ar ryw 'stol
O faen mwsoglyd dymor clyd,
 Ein ieu'ngctyd ddyddiau'n ol,
Uwch gofidiau'n berffaith rydd,
 Ddiniweidion ddedwydd ddau,
Yn ymfenwydaw'n Eden chweg,
 Ar foreu teg o Fai ;
Ond uwch craig Cwm Eigia'n mhell
 Rhoddai'r gigfran ambell wâch,
I ddweyd fel hedai'n hamser prin,
 Fy anwyl Robyn bach.
 I ddweyd fel hedai'n, &c.

Mae'r ddraenan eto'r un,
 A'r maen mor esmwyth sydd,
 Olwyno'n gu dros Waen y Gaer,
 Mae cerbyd aur y dydd ;
Y gog a'r fwyalch fwyn,
 Mor bêr eu swynion sydd,
Ond ple mae'r chwiban fyddai'n fêl
 Ar frig yr awel rydd ?
 Etyb adlais serch yn ôl,
 Odd yr Orllewinol fro,
 " Mae'm llw'n gerfiedig ar yr haul
 Fu'n gwel'd ein breichiau'n nghlo,"
A'r adduned wnest hoff lange,
 Pan yn fachgen ieuangc iach,
A ddeil nes dirwyn oes dy Wên,
 I ben fy Robyn bach.
 A ddeil nes dirwyn, &c.

GWILYM COWLYD.

PLU YDYW PLU YN Y DIWEDD.

Bu Gwilym erstalm —(yn llanc ifanc wrth gwrs. ^
 Yn hoff o wneyd 'sgwrs â rhianod,
 A'i fron elai'n fflam o edmygedd pob mun,
 A boch fel y rhosyn a'r manod ;
 Do, do, fe fu'r bardd yn ei ffoledd
 Yn fioli ar flodau rhianedd ;
 Ond profwyd wyr dyn ar eu swynion bob un
 Mai Plu ydyw Plu, yn y diwedd.

Wrth chwareu'n ddiniwaid gellweirus ar daith,
 Ryw noswaith yn amser cynhauaf,
 Pwy redodd i ffordd gyda'i galon a'i serch,
 Ond merch ymherawdwr ffugyra ;
 Un fedrus ar nodwydd a llyfrau,
 Ond estron i berchyll a lloiau ;
 A phrofwyd wyr dyn er ei swynion bob un,
 Mai Plu ydyw Plu, ar y gorau.

Aeth eilwaith yn glaf o afiechyd y fron,
 Gan swynion rhyw aeres i Ddoctor :
 Ac wedi'r mawr boen i gael gwelliant a hwyl
 O serch y beth anwyl anhebcor ;—
 Roedd hi'n lodes ieuanc o fonedd
 A'r bardd heb ddim *income* i'w choledd,
 A phrofwyd wyr dyn er ei swynion bob un
 Mai Plu ydyw Plu, yn y diwedd.

Bu'n caru ddwy flynedd a merch rhyw Siop Win,
 A'i threm yn dweyd cyfrin ei chalon ;
 Un lawen, ysgafndroed, fel dnwies o lan,
 A'i gwallt o iïw'r fran yn fodrwyon ;
Piano wnai'n wallgof a'i bysedd,
 A chalon pob mab yn eiddigedd ;
 Ond profwyd wyr dyn er ei swynion bob un
 Mai Plu ydyw Plu yn y diwedd.

Mae'r bardd erbyn hyn yn hen langc agos iawn,
 Ac wedi gwneyd llawn henderfyniad ;
 Y ceidw fo'i galon mor oered a'r graig
 Os na wel o wraig yn ei gariad ;
 Un wyr am wneyd 'menyn, a phobi,
 Trin ty, trwsio hosan, a golchi ;
 Can's profi wyr dyn bydd mursenod di lun,
 Mai Plu ydyw Plu, ar ol priodi !

Er cymaint yw'r dal a'r pysgotta bob awr,
 Y nwfr y mor mawr elwir *caru* ;
 Mae'n gwybod am un sydd i'r dim wrth ei fodd,
 Os nad ydyw'n anhawdd ei bachu,
 Mae'n gall, ac mae'n ddengar a llongu,
 A'i llygaid gan serch yn pelydru,
 Cael breichiau'r ferch wen yw nymuniad Amen
 Yn blu tan fy mhen—pan fwy'n trengu.
 GWILYM COWLYD.

GOGANGERDD

I DDIRMYGWYR CYFARFODYDD LLENYDDOL.

Roedd yn Llanddowror gynt hen wr,
 O'r cyfnod nid wyf berffaith siwr ;
 Gall fod ei hanes yn y Twr,
 Ond nid yw bwys am hyny ;
 Ei enw oedd Gruffydd Sion y sant,
 Hen ddysgybl hoff o ddysgu plant,
 Cyfododd gwn, ysgolion gant,
 Mewn cwm a nant yn Nghymru.

Trwy gyfrwng ei ysgolion rhâd,
 Gwnaeth anherfynol ddrwg a brâd,
 Ac yn mhob meddwl hauodd hâd.
 'Rhyn eilw'r wlad *gwybodaeth* !
 Gwnaeth hyn dragwyddol ben ar hynt
 Yr hen foddlonrwydd dedwydd gynt,
 A gwnaeth i'n bechgyn lyncu gwynt—
 Chwilfrydedd a llenyddiaeth.

Cyn hyn arferai'r ieu'ngtyd mâd,
 Bob Sul a gwyl ymgasglu'n gâd,
 I erlyn rhyw chwaryddiaeth, râd,
 Wrth alwad tueddiadau ;
 Bob gyda'r nos ceid dawns a chân,
 Yn nghwmni glwys lodesi glân,
 Nes hedai'r oes yn ddiwahan,
 Heb son am ffwndwr llyfrau.

O! 'r hybarch, fwyn Rufeinig fam,
 Byw byth fo'th deyrnas, herwydd pam,
 Tra llywiaist di wneid nemawr gam
 A'r meddwl trwy fyfyrion ;
 Cai'r werin dreulio oes ddi fraw
 Heb son am Grist na llyfr i'w llaw,
 Rol pechu mis, wyth swllt neu naw,
 Wnai setlo'r Bil a'i glirio.

Ond erbyn hyn pêl droed nid oes,
 Na thaflu maen, na chodwm clos,
 O wawriad Sul hyd wylliad nos,
 Naw wfft i'r chwaeth bresenol !
 'Does chwareu ceulus mewn un man,
 Na *thenis ball* wrth glochdy'r Llan,
 Pob *pleser teilung* laddwyd gan
 Y cwrddau ban llenyddol.

Ow, ow, mae'r wlad yn awr fel pair,
 Pob tref a llan ple bynag'r air,
 Does dim ddywedir neu a wnair,
 Yn sefyll at y safon,—
 Goleddir gan aelodau certh,
 Ryw gymdeithasau gwag diwerth,
 Lle profa dynion bwys a nerth
 Gwahanol egwyddorion !

I fechgyn nwyfus, llon eu bryd,
 Fel ni, sy'n arfer cyrchu'n nghyd,
 I dreulio'r nos mewn stafell glyd,
 Yn ngwynfyd diod feddwol ;
 Fe fyddai'n slafaidd wasaidd waith
 I ni bendroni,n nghylch yr iaith,
 A drysu'n menydd ddyddiau maith
 Ynghylch dysgeidiaeth foesol !

Pa waeth i ni pe llosgai'n nghyd
 Bob llyfr a Beibl sy' yn y byd ;
 Neu pe bai pob llenyddiaeth ddrud,
 Yn fflaglu'n nghyd yn wenfflam ?
 Os cawn ni fwyd a phres a *sprees*,
 A bywyd llawen, waeth i ni—
 Pe'r ai pob enaid gyda'r lli,
 A Chymru i gyd yn Fediam !

Nid y,m mor ffol, ynfydion wyr,
 A cholli gwynfyd oriau'r hwyr,
 Gwastraffu papur, ingc, a chwyr,
 Er mwyn llenyddwyr Brydain ;
 Dilynwn ni'o pleserau cun,
 Gwnaed pawb trwy'r byd fel myno 'i hun,
 Pa les i ni fod unrhyw ddyn
 Yn ddedwydd, ond ni'n hunain ?

Er pan ddaeth dysg a llyfrau'n rhad,
 Aeth pob *teilyngdod* ar leihâd,
 Mae myfyr bechgyn gloewa'r wlad,
 Yn wastad am Lenyddiaeth !
 Wel codwn frodyr oll un fryd,
 Ymdrechwn dd'rysu eu cais i gyd,
 Hwre i'r Pab—Ac " Oes y byd "
 I ddybryd anwybodaeth.

GWILYM COWLYD.

SION PRYS.

Roedd hen wr ers talm, a gyfenwid Sion Prys,
 Gwr parchus mewn llawer golygiad ;
 'Roedd ganddo fo Dyddyn heb ddegwm na threth,
 Ac wmbreth o wartheg a defaid,
 Ac wmbreth o weision, (rhwng dynion a hogs)
 Mewn closau pengliniau, a byclau'n eu clocs.

'Roedd Sionyn mor enwog a'r Pab mewn un peth,
 Yn gwbl ddi feth anffaeledig ;
 Ac mor ddigyfnewid a'r Quacker ei hun
 Oddiwrth bob hen gynllun cyntefig ;
 Hen wladwr oedd Sion, os bu gwladwr erioed,
 Bob blewyn o'i ben, a phob ewin o'i droed.

'Roedd beudy fan yma a man draw hyd y tir,
 Gryn filltir o'r fan'r oedd e'n trigo ;
 Lle carid y gwellt a'r holl borthiant ar gefn,
 Er helpu cyfundrefn y teilo ;
 Can's Teiliai'r hen bobl ers talm, clywais ddweyd,
 Mewn cewyll ar gefn, cyn i drol gael ei gwneyd.

Pan welid y gwanwyn yn chwerthin mewn dail
 Yn llygad yr haul gwyneb felyn,
 Rho'id iau ar y Bustych, darperid yr ioc,
 A thresi godidog o wdyn ;
 Ac ambell i glwt, o le teg a phur hawdd,
 Lufurid, yn gefnau—'run gynllun a'r clawdd.

Arferai'r cym'dogion wneyd cymhorth, bid siwr,
 Pob un yn gawellwr cynhefn,
 Yn tuthio o'r domen i'r cae, ac yn ol,
 Am ddyddiau olynol bob blwyddyn ;
 A dyna fel byddent os gwir ddywed rhai,
 Yn cario, ac yn cario, a'r domen fawr lai.

O dipyn i beth, daeth arferiad i'r byd.
 Ceffylau, ac erydr, a throliau ;
 Ond fynai Sion Prys ddim i droliau un dyn
 Gael llwytho'n yr un o'i domenau ;
 Can's tybiai'r hen frawd fod y ceffyl a'r drol,
 Yn llyncu'r holl dail ar rhy 'chydig o lol.

'Doedd dim fynai ef, ond y cawell ar gefn,
 A chadw'r hen drefn yn dragywydd ;
 Ffolineb a rhodres, medd ef, oedd wrth wraidd
 Y cynllun Seisnigaidd a newydd ;
 Waeth beth dd'wedai rheswm na phrofiad o'i phlaid,
 Cawellu wnai Sion am mai felly gwnai 'i Daid.

Mae llawer o feibion Sion Prys,—o ran ffydd,
 I'w gweled bob dydd ar hyd Cymru ;
 Rhai'n sefyll yn erbyn pob amcan trwy'r wlad
 Fo'n groes i arferiad y teulu ;
 Rhyw hurtiaid hunanol, i'w heinioes yn bla,
 Yn ddall i bob rhinwedd, a chroes i bob da.

Adwaenir y tylwyth gan laesder eu hael,
 A'u nodwedd iselwael a bawlyd ;
 Oddiwrth bob diwylliant ymgadwant ymhell,
 Can's gwell ganddynt gawell na cherbyd !
 Mae dysg, a llenyddiaeth, a chanu mewn trefn,
 I'r rhai'n megys trol—yn lle'r cawell ar gefn.

ERGYD Y DDAMEG.

Os oes yn bresenol rhyw rai'n digwydd bod
 Heb hoffi'r cyfarfod Llenyddol,
 Ac heb wel'd y gwelliant mewn symledd a chwaeth
 Yn null ein caniadaeth grefyddol,
 Mae'r oes yn myn'd rhagddi, dowch allan ar frys,
 Rhag ofn cael eich rhestru'n ddisgyblion Sion Prys.

GWILYM COWLYD.

Y BYD YN POWLIO.

A fuoch chwi'n meddwl unrhyw bryd,
 Fod pê'r hen fyd yma'n powlio?
 'Rwy'n siwr ei bod hi'n abl gwych,
 Prun bynag fuch chwi a'i peidio;
 Chwi wyddoch—ddeuddeng mlwydd yn ol,
 A phymtheg, deunaw, ugain,—
 Mae'r holl Gerddoriaeth godai'r gwylith
 Oedd "DARLITH TANYMARIAN."

'Roedd hono'n Ddarlith yn ei hoes,
 Gadd lawer *cheers* twymyn,
 Ond treiglo ddarfu'r belen fawr,
 A hithau i lawr i'w chanlyn;
 Bu oes Darlithiau'n fyw er hyn,
 Nes daeth Caledfryn gyfion,
 I fwrw'r *dampier right and left*
 Ar grefft "*pregethu dynion.*"

'Rwy'n cofio agos megys doe,
 Gerddorion Llechwedd isa
 Yn cadw'r Concert cynta 'rioed
 Yng nghanol coed Rhiwdafna,
 Nid diffyg grym nac 'wyls sy
 Na buasent felly eto,
 Ond dyma'r rheswm—fod y byd
 O hyd, o hyd, yn powlio.

Bu Enthym Dirwest am ryw hyd
 Y "Berl y byd" Cerddorol,
 Pan oedd y bêl yn powlio i lawr:
 Yn un "Clwb mawr Dirwestol,"
 Daeth Mills Lanidloes yn ddioed,
 Ac Ambrose Lloyd rol hyny,
 I siglo Cymru—a chodi chwaeth
 Gerddoriaeth gwerth ei chanu.

Aeth hyny i lawr o beth i beth,
 Roedd rhaid cael rhywbeth newydd,
 Daeth berwi dwr i gyrædd pris—
Tea Parties mewn Capelydd,
 Daeth Maer y Printers—dduwiol nôd
 I'r maes dan gysgod crefydd
 Rhoes Demlau'r Arglwydd ar ei *stretch*
 I werthu i *Bamphlets* beunydd.

Daeth Ieuan Gwyllt, mor wyllt a'r Gôg,
 Gwr enwog i'w ryfeddu,
 I ffurfio *Common Prayer* tôn
 I holl Gerddorion Cymru !
 Newidiodd German Music ffôl
 Yn lle'n hen ddwyfol donau !
 Mae'r byd yn dechreu teimlo'r *catch*
 I lawr yn *batch* 'reiff yntau.

Rhyw fegys doe roedd canu poeth
 Cantata goeth Caernarfon ;
 Caed wedyn " Gyfres " swllt y mis
 O bigion Glees newyddion,
 Ond erbyn heddyw ha ha, ha,
 Mae oes " Sol Ffa " 'n blodeuo,
 Just fel rhyw frechden aros pryd
 Tra bo'r hen fyd yn powlio.

Does dim ond talent loew lawn,
 All ddal i'r iawn gyfeiriad ;
 A dilyn cwrs y byd bob tro,
 Wrth iddo bowlio i waered ;
 Wrth gwrs gyfeillion—rydych chwi
 'Nenwedig chwi a minau ;
 Yn dilyn cylch beunyddiol hwn,
 Wel, powliwn o Riwdafna.

G. COWLYD.

MI GES I GAM OFNADWY

Mi ddwedai stori bach go ffres,
 Sef hanes Dafydd Parri ;
 Doedd dim gwell crydd trwy'r deuddeg Sir,
 A dyna'r gwir am dani ;
 Mi glosiai Dafydd bâr o Vamps
 A neb oddiyma i Gonwy ;
 Os byddai bai fe feiai'r clamps,
 Mi ges i gam ofnadwy.

Roedd gwobr yn'r Eisteddfod fawr
 Un flwydd auw bâr o Fwtsias
 Mi drawodd Dafydd ati'n gawr,
 A gweithiodd bâr i'r pwrpas ;
 Ac roedd o'n bâr—roes neb erioed
 Ei well am droed i dramwy ;
 Ond rhanu'r wobwr fu (go dam)
 Gadd Dafydd gam ofnadwy.

Cadd dipyn bâch o flâs er hyn
 Ar lwyddiant Eisteddfodol,
 Ac ni bu le fo byth yn wag
 Mewn odid gwrdd Llenyddol ;
 Daeth yn Draethodwr mawr ei stôr
 A Bardd a Llenor mwy fwy ;
 A phob tro collodd—dywed pam—
 Mi ges i gam ofnadwy.

Gall ysgrifenu ar hyd a lled
 Gan rhwydded ag anadlu ;
 A meddwl hefyd neno dyn,
 Dae fater prun am hyny.
 Mae 'i awen fel gollyngiad llyn
 Diderfyn ei ryferthwy ;
 Yn dadgan mewn Cymraeg di nam—
 Mi ges i gam ofnadwy.

Pan wel ryw destyn at ei chwaeth
 Yn rhyddiaeth neu'n farddonol,
 Mae'n ysgrifenu llafnau maith,
 Ryw chwech neu saith gwahanol ;
 Fe'u henfyn oll i dreio'u *chance*,
 Fel chwareu Lottri Sidrwy ;
 A dwed pan gollant—mewn drwg lam
 Mi ges i gam ofnadwy.

Na synwch ddim fod ganddo haid
 Yn nwyllaw'r Beirniaid heno ;
 'Rwy'n ddigon siwr—mae gan i dyst,
 Sef dull ei glust o'n gwrando ;
 Mae'n disgwyl gwobr am bob pwnc
All round—yn grwn fel modrwy ;
 Ac am bob siomiant—dwed heb nam
 Mi ges i gam ofnadwy.

* Mi ganodd llynedd i'r Chignon
 'R englynion gore o'r haner ;
 A fo pia'r englyn gore yn hon
 I'r Cogwrn Helter Scelter ;
 Ac os nad fo gaiff Waggon Caer,
 A'r gân i'r afon Gonwy ;
 Gall ddatgan eto mewn drwg lam,
 Mi ges i gam ofnadwy

Cai Dafydd Parri 'i farn ei hun
 Y fo ydi'r dyn o'r cwbl ;
 Fe 'nillai'r gwobrau'n nerth ei ddawn
 Ar 'chydig iawn o drwbwl ;
 Ond rhywun arall—gadd y dydd
 A Deio'n brudd wrth dramwy—
 O'r 'Steddfod adre—yn dweyd wrth Sam
 Mi ges i gam ofnadwy.

* Y penill hwn i'w gyfaddasu gan yr adroddwr fel bo'r am-
 gylchiadau yn galw.

MOLAWD Y DELYN.

Tua chwech ugain mlynedd yn ol, o eleni (1887), yr oedd mam Dafydd Sion Pirs yn cadw y Dafarn a elwid y DELYN (*Harp*), Llanfairtalhaiarn. Yr oedd yn fardd pert, ac y mae amryw o'i Gerddi wedi eu Cyhoeddi, ond y ddoniolaf a'r oreu o'r cwbl yw "Molawd y Delyn," o'r hon y mae y pennillion canlynol wedi eu dyfynu, fel y goreuon, gan TALHAIARN.

Brenhines pob miwsig, hardd adail urddedig,
 Wych haelfraint uchelfrig goethedig ei thop :
 Am adlais mwyn odlau, pur lesol pŕ leisiau,
 Gan hon mae'r sain oreu sy'n Europ.

Clochdy clau wychder, c'lomendy clau mwynder,
 Siop dannau *siâp* dyner, teg wiwber ei gwaith ;
 Pren oslef barneisliw, tŷ golau teg eiliw,
 Tlws adail glwys ydyw glòs odwaith.

Merch organ arch eurgaingc, ty closgoed teg lwys-
 gaingc,
 Gorseddfaingc, crededdfaingc, troell wirgaingc tra llefn;
 Mawl lestr melusdrwst, sy'n dwndro sydyndrwst,
 Cywirdrwst, duwioldrwst, di waeldrefn.

Gwagen pob gwiwgerdd, i lusgo melusgerdd,
 Mae'n agor mwyneddgerdd, wych haelgerdd a choeth ;
 Esgoldy'r ysgowldant, a chadair y chwiwdant,
 Ceginant, Parlwrant, perl eurdoeth.

Ty masarn, tô miwsig, glau adail glywedig,
 Cynwysdy cân ystig, urddedig hardd iawn ;
 Hwyluslef meluslais cain oslef cynneslais,
 Trefnuslais iawn adlais hynodlawn.

Apollo (medd llyfra') a'i lluniodd o'r llona,
 Mercurius a'i carai, da raddau, di rus ;
 Amphion a'i pynciai, ac Orion (medd geiriau)
 Yn ffyddlon eu moesau a'r *Muses*.

Orphion pan ganai fwys euraid fesurau,
Y meini'n y muriau yn chwareu'n wych oedd,
Wrth rinwedd pereiddlais y Delyn feluslais,
Os coeliwn ni adlais cenhedloedd.

Ei llais sydd i'n clustiau fel arogl i'n ffroenau,
Neu fêl ar wefusau, tôn oreu tan ne';
Fe'i gwnaed at ei phwrpas yn harddach ei hurddas,
Na phalas na dinas i danne.

Tryth ddewrgras tri theirgwrach, hoff awgrym tri phum-
gwrach.

Dwys wyrthiau tri seithwrach, chwe' nawgwrach yn
ol;*

Pob un mewn trefn odiaeth yn gwneud eu gwasanaeth,
Peroriaeth athrawiaeth wrth reol.

A gwr a thri ecstro o'i hol yn eî hwylio,
Ac wythwast yn gweithio o dano bob dydd;
Dwy forwyn, † da fwriad yn dilyn y deiliad.
Mor gyflym i'w galwad a'u gilydd.

Pwy godwn i'r gadair i agor ar ungair
Drysordy di anair pum cywair pob cân,
A chwery a chwebys a dwyfawd a deufys
Wrth *statys* amcanus mab Cynan.

Hyf godwch drigolion swydd Dinbych ac Arfon;
Trefaldwyn swydd dirion, Fflint, Meirion, a Môn :
Mae pawb ond plant Nabal, yn caru merch Tubal;
A'i *threbal* fain feddal fwyn foddion.

Os hapie ryw landdyn mewn afiaeth ymofyn,
Pwy ganodd i'r Delyn, deg eilun, da'i gair;
Ond didwyll yw d'wedyd i foddio'i gelfyddyd
Rhyw lengcyn dwl ynfyd o Lanfair.

Pob dyn a'i hadwaeno, gwnaed fawl fel y medro,
Yn hynaws i honno sy'n *cleimio* swn clod;
Mae pawb drwy'r holl wledydd yn caru ei llawenydd,
Ond ambell hên gybydd 'rw'yn gwybod.

* Rhif tannau y delyn, sef 99. † ‡ Y bysedd a'r bodiau.

AR DDIWRNOD CYNHEBRWNG FY MAM.

Rwy'n ameu, rwy'n credu, rwy'n dychryn,
 Rwy'n drysu, yn nghanol fath don ;
 Gorchfygu y farn y mae'r teimlad,
 Yn mrwydr gynhyrfus fy mron ;
 Ai tybed mai fi oedd yn sefyll,
 A nghalon yn drywyllt ei llam,
 Wrth ochor yr Eglwys, fan hono,
 Ar ddiwrnod Cynhebrwng fy mam ?

Dydd ingoedd, pe dydd fuasai hefyd,
 Mae dydd arno'n enw rhy gu ;
 Nid dydd gaf fi alw'r fath enyd,
 Ond noswaith ofnadwy o ddu ;
 Ni chododd y ser mewn prydferthwch
 Na'r lleuad, oherwydd paham,—
 Ni welais i ddim ond tywyllwch,
 Ar ddiwrnod Cynhebrwng fy mam.

Mi glywais i'r heulwen gyfodi,
 Gan wasgar goleuni ar daen ;
 A chlywais fod pobpeth y diwrnod,
 Yn union fel dyddiau o'r blaen ;
 Ond ni chefais i ef ond breuddwyd,
 Ni theimlais lle cerddais un cam ;
 Rhyw adwy rhwng dyddiau fy mywyd,
 Oedd diwrnod Cynhebrwng fy mam.

Dyoddefais, do, 'i chuddio'r tro olaf,
 Byth mwyach i weled ei phryd ;
 Dyfnderau fy ingoedd pryd hwnw,
 Fy Nuw sy'n ei gwybod i gyd ;
 O ! 'r ydoedd glyn Achor yn gyfyng,
 A llwybrau Rhagluniaeth yn gam ;
 A wylo'n hyfrydwch diddarfod,
 Ar ddiwrnod Cynhebrwng fy mam.

Mi welais roi'r arch yn y beddrod,
 Ah ! 'r oedd yr ystorom yn fawr,
 A'r llaw a'm meithrinodd mor anwyf;
 Yn rhwym ynddi'n myned i lawr ;
 Dygyfor wnai galar o'm deutu,
 Hen ffrindiau a cheraint dinam,
 Ond fi yn yr ymchwydd oedd ddyfnaf,
 Ar ddiwrnod Cynhebrwng fy mam.

Y degfed ar hugain o Ragfyr,
 Tra dalio fy oes ar y llawr,
 Ystyriaf yn ddiwrnod o waeau,
 A dychryn yn nhorriad ei wawr ;
 Os arno daw'r heulwen trylachar,
 Mewn anghof i wênu'n ddimam;
 Mi wylaf ei wenau yn alar,
 Ar ddyddgylch Cynhebrwng fy mam.

TREBOR MAL

YSGOLDY RHAD LLANRWST

WEDI IDDO FYNED YN ANGHYFANEDD.

Hoff rodfa fy mabolaeth,
 Chwareule bore' myd,
 A wnaed i mi yn anwyl,
 Drwy lawer cwlwm clyd ;
 Pa le mae'r si a'r dwndwr,
 Gaed rhwng dy furiau gynt,
 A'r plant o'th gylch yn chwareu:
 A'u hadsain yn y gwynt ?

Mae anian o dy ddeutu
 Mor bruddaidd ac mor drom ;
 Fel un fai cadw gwylnos
 Uwch d' adail unig, lom ;
 Mae'r olwg arnat heddyw,
 Gaed gynt mor dêg a'r sant,
 Fel gweddw d'lawd, amddifad,
 Yn wylo ar ol ei phlant.

Mae sw'n y gloch yn ddystaw,
 Heb dorf yn d'od o'r dre',
A bolltau'th ddorau cedyrn,
 Yn rhydu yn eu lle ;
 Ystlum a'u mud ehediad,
 Sy'n gwau eu hwydrwm hynt
 Lle pyngcid cerddi Homer
A Virgil geinber gynt.

Mae hirwellt bras anfaethlon,
 Yn brith orchuddio gro,—
 Y llawnt bu 'r cylch a'r belen,
 Yn treiglo yn eu tro ;
Boed wyw y llaw a'th drawodd
 A haint mor drwm a hyn,
Boed ddiblant a'th ddiblantodd,
A diffwrwyth fel dy chwyn.

Pa le, pa fodd mae heddyw,
 Y lluaws yma fu
 'N cydchwareu, a chyd-ddysgu,
 A chyd ymgomio'n gu ?
 Mae rhai mewn bedd yn huno,
 A'r lleill ar led y byd,
 Nad oes un gloch a ddichon
 Eu galw heddyw 'nghyd.

Wyliedydd doeth a diwyd,
 Os cwrddi ar dy hynt
A rhai o'm cyd 'sgoleigion
 A'm chwareuyddion gynt,
 Dod fy ngwasanaeth atynt,
 A d'wed, er amled ton
Aeth droswyf, na ddilewyd
 Eu côf oddiar fy mron.

IEUAN GLAN GEIRIONYDD.

TRAETH-ODL AR EWYLLYS ADDA.

Os gellwch chwi wrando chwedel,
Rwy'n deisyf cael dweyd yn isel,
Fel yr aeth y byd i gyd o'i go',
Fe fy nychir am floeddio'n uchel.

Geill llawer ddweyd wrth ddechreu,
Am danaf fy mod i'n ben denau ;
Ond daliwch sylw wrth wrando'n hir,
A glywch chwi ddim gwir o'r geiriau.

Fe luniodd Adda ei 'wyllys
Yn fulaidd ac yn anfelus ;
Fe aeth ei feibion, pa fodd bynag fu,
Ar ol ei gladdu i radd g'wilyddus.

Gosododd rai ar orsedd-feingciau
I wisgo porphor a sidanau ;
Eraill i fatogi, ac i geibio'n g'oedd,
Mewn glynoedd hyd ben eu gliniau.

Rhoes deyrnwiall i rai o'i feibion,
I eraill ffust a golchffon ;
A'r cwbl yn frodyr un ben a gwaed,
R'un dwylo a thraed yn union.

Ac i'r neb sy'n gweithio leia'
Y rhoes e'r peth goreu i'w fwyta ;
A'r gwaca ei fol, fel mae gwaetha'r drefn,
Yw'r lluman a'r cefn llwma.

Ond rhoes gymaint o dwyll, rhagrith a chelwydd,
Ac o chwantau'r galon i bawb fel eu gilydd ;
A rhoes bawb 'run bellder oddiwrth y ne',
Yn y gole tan yr un g'wilydd.

A rhoes gymaint balchder i'r tlota o'i deulu,
Ag i'r brenin, ond ni roes e' ddim i'w brynu ;
Mi row'n genad, rw'n meddwl, i dori 'mys,
Cyn lluniwn i f' wyllys felly.

A'i blant pan ddechreusant gynt ymlwybraeth,
Gosododd hwy redeg gyrfa naturiaeth,
Rhoes bawb yr un bellder oddiwrth y ne',
A'u hwynebau i le anobaith.

Dyna lle'u gadawodd i gyd-ymdrabaeddu,
A'r llaid ar eu dillad a'r lle wedi ei d'wyllu,
I sathru traed eu gilydd yn y byd,
Yn filoedd wrth gyd.drafaelu.

Ni cherdda'r cybydd mo lwybr oferwr,
Na rhegwr gwaetha mo lwybr rhagrithiwr,
A'r cwbl yn rhedeg yn bur rhwydd,
Rhwyg-aflwydd o'r un gyflwr.

A dyma fel yr aeth y ffordd mor llydan,
Fod pawb mor hynod am ei lwybr ei hunan,
A phob un a'i drachwant gydag e',
A'i bleserau a blys arian.

Yn awr mae dysgawdwyr llawn eu dysgleidiau,
Gan dewder a bloneg yn dadwrdd o'u blaenau ;
" Ffordd uffern yw hon, dim pellach dowch,
Gochelwch, trowch yn eich olau."

Ac mae ffyrdd y rhain i'r nef cyn groesed,
Fel un ar i fyny. a'r llall ar i waered ;
Yn ddigon er moedro menydd dyn gwan,
Heb wybod pa fan i fyned.

Meddai'r *Papistiaid*, " Cym'rwch Pedr apostol,
Addefwch a thelwch, chwi fyddwch etholol,
Chwi gewch fyn'd i'r nef ar haner gair,
Heb fyn'd ddim pellach na Mair i morol."

Meddai'r *Methodistiaid*, "Ewch hyd y ffordd dosta
Ni feddwch dda'ch hunain, addefwch eich ana ;
Ac os na'th etholwyd, 'dewch chwi byth i'r ne',
Ac uffern fydd eich lle, cewch goffa."

Na, meddai'r *Baptist*, "Nid dyna'r ffordd nesa,
Ewch dros fryn y wyntyll, a thrwy bant yr olchfa,
Gadewch foty bedydd plant ar y llaw chwith,
A chwi fydd y gwenith gwyna."

Na, meddai'r *Wesleys*, "Mae hono'n ffordd
dd'ryslyd,
Mae llwybr i'r buarth trwy dref glendid bywyd ;
Nac oes, meddai'r *Cwacers*, "dewch chwi fyth
yn ffri
Heb gynhwrf ac asbri'r Ysbryd."

Meddai hen Eglwys Loegr, "Ewch yn bur ddi-
gyffro,
Rhwyng dwy lech Foses, does le i chwi fisio,
A gymero dir, degymed yn deg,
Dim chwaneg. byddwch iach yno."

Wel, bellach o'r werin, pa ddewin eill wirio,
Pwy sydd ar gelwydd, a phwy ellir goelio?
Mae'n ddigon er ammeu dan y rhod,
A oes uffern yn bod neu beidio.

Minau a rof gynghor yn debyg i'r Person,
Mae hanes ddiogel mai hyny sy ddigon ;
Car dy gymmydog fel ti dy hun,
A Duw tri yn un o'th galon. NANTGLYN,

BWYALL Y COWPER.

CERDD I OFYN BWYALL I MR. THOMAS PRITCHARD Y
GOF O BONT-Y-GATH, LLANDDOGED.

Y crefftwr nodedig, parchedig, gwych iawn,
Cywreinia cu rinwedd mae'n ddoethaidd ei ddawn
Gwaith dwylaw'r gwr yma sy'n brafia'n ein bro
Nid oes ar y ddaear fawr gymar i'r go' ;

Ail iddo ar dir ni welir m e'n wir
 Am bob gorchwyl moddgar mewn claiar fodd clir,
 Pob arfau wnai'n bur o haiarn a dur
 Yn wychion iawn awchus, yn llyfnion a thaclus,
 Yn hwylus dda gymwys ddi gur

Gwna fwyell a chynion, ebillion di ball,
 Yn oreu'n y gwledydd, y celfydd wr call ;
 Am dweyod a rasglau o'r goreu ydi'r gwr,
 Am dempriad ac hasiad da'i syniad mae'n siwr ;
 Mae'n weithiwr da pêr i'r hwsmon dan ser,
 Gwna bigffyrch a rhawiau, ceibiau a phob cêr,
 A henwi'r holl waith sydd imi'n rhy faith
 A dadgan ei fawrglod ni ddichon fy nhafod,
 Mae'n ormod o syndod i saith,

Fe wna heirdd Efeiliau dwys eiriau di syn
 Pob gorchwyl celfyddgar di gymar ôf gwyn,
 O bres ac o efydd mewn deunydd a dur,
 Ei glod sydd drwy'r hollwlad mewn bwriad yn bur
 Y cywrain wr call da buraidd di ball,
 Nid adwaen yn unlle a wela arno wall ;
 Wrth glywed ei glod mor rhwydd dan y rhod
 Lle byddo gwr mwynber rwy'n myned bob amser
 Yn eger fel beger yn bod.

Fy angen o'm gwirfodd a'm gyrodd dan gwyn
 At Thomas ap Prichard hapusol wr mwyn,
 I 'mofyn am fwyall nid di ball yw'r dôn
 Am dani rhwng pobloedd drwy'r siroedd bydd sôn,
 Gwnewch hon wr teg wawr yn fwyall go fawr—
 Yn erfyn llym awchus fo'n gymwys i gawr,
 A drawa ar un tro drwy einion y go'
 Nes byddo'n gwahanu'n ddwy grawen o'r ddeutu
 Yn hollti fel lledu pen llo.

Rhowch ynddi hi'n hynod y parod wr pur
 Yr haiarn dros gampwys — dau ddegpwys o ddu,
 Gwneiff gyda'i chrai dwbwl dda forthwyl di foed
 Ond rhoi ynddi swmer mawr drymder o droed,
 Bydd hon at lwy bren yn hylaw dros ben ;
 Gwych hefyd i glogsiwr da syniwr di sen,
 Y selatar a'i cais at yru hœl ais
 Rhoi benthyg ar droeau i wneyd danedd cribyniau
 I Gymro heb swnio ac i sais.

Pan gaf y dda fwyall wr diball ar dir
 Mi doraf holl goedydd y gwledydd yn glir,
 Pe cawswn ei ffasiwn mi f aswn yn falch,
 Pan oeddynt yn tori holl goed Careg Walch ;
 Oni bae rhag ofn drwg holl goed Gallt y Cwg
 Mewn diwrnod a dorwn, mi medwn fel mwg,
 Mi dorwn heb nachau, mewn diwrnod neu ddau,
 Holl dderw Parc Llystyn a choedydd maes Mostyn
 Rai gwydn ei brigau a brau.

A'i gwegil yn ffyrnig wna'r cerig o'i cwr
 Holl goed Philidelphia mi tora yn un twr,
 Graienyn Penmachno wrth leinio eiff i lawr
 Mi a'i tora fel cneuen y milain faen mawr ;
 Am y Wyddfa mae son, mi tora'n y bon,
 Fel y gwelir mewn golau ymylau gwlad Mon ;
 Mi af cyn bo hir i Gaernarfon sir,
 Mi baria'n daclusach i'w crogi bob creigiach,
 Bydd tecach gwastatach eu tir.

Rhag eich rhoddi'r gwr hynod mewn gormod o gost
 Mi a'i cymra'n llai ronyn rhag dychryn rhy dost,
 Mi aethym rwy'n deudyd mewn enyd o oed,
 Nid allaf ei riwlio na'i thraenio wrth ei throed ;
 Gofynais hi heb feth yn ormod o beth,
 Bydd arni bris dirfawr neu dramawr o dreth ;
 Gwnewch hon mewn gair gwir i mi cyn bo hir
 Yn llai o bum ugain a dau wyth drachefen,
 Bydd felly yn globen go glir.

Wel cofwch chwi Thomas ddewr addas dda'i ryw
 Wneyd bwyall wr mwyngu am ganu a min gwiw,
 Na throtho mo'i gweflau ar siwrnai drom syth
 Na thyr ynddi'n unlle mor bylchau chwaith byth;
 Mor finiog a glew ar dur dorai flew,
 A'i siap mewn llyfn foddeu, nid teneu na thew,
 Eich dysgu wr ffri nid gweddus i mi,
 Pan gaffwyf fi'n bendant y fwyall heb soriant
 Rhof foliant wych haeddiant i chwi.

ELLIS ROBERTS (Elis y Cowper),
 Llanddaged, a'i Cant,

MARWNAD

O GOFFADWRIAETH AM SIR THOMAS KYFFIN O FAENAN,

Mesur—“Hyd y Frwynen.”

O'ch newydd trymedd am beniaeth bonedd
 O Faenan fwynedd iredd un,
 Newydd caled fu o'i derfynied,
 Ni gawson golled bod ag un ;
 Rhybyddion trymion i Fonddigion
 Oedd colli'r ffyddlon cyson call,
 Yn iach gyngor doeth yn rhagor
 Yn ein bordor yn ddi-ball ;
 Yn iach reolaeth drwy ei gymdogaeth,
 Yma o sywaeth hyn sydd siwr,
 Fe fydd caled y diweddiad
 Fe geir gweled am y gwr,

Och colli peniaeth yn y gymdogaeth,
 Da ei waedoliaeth diwael ffri,
 Och am Sir Thomas blin yw'r achos
 Na base yn aros gyda ni ;

Fe oedd alluog Aer goreuog,
Un dwys enwog mewn pum Sir,
Ymhob achosion union ene
Fe ddoeth lafare y geirie gwir ;
Ymhob achosion rhwng Bonddigion
Ei ddyfn fadroddion union o,
Llafare ei feddwl uwchlaw'r cwbl
Yn ddi-drwbl ar ryw dro.

Fe oedd yn rhoddgar ar y Ddaear
A 'lusengar iawn yn siwr,
Bydd colled galed i drueinied
Ag i'r gweinied am y gwr ;
Peniaeth Siroedd ei air a safodd,
Yn hyn a nododd dan y Ne,
Cyntreifiwr Trefydd trefnwr Plwyfydd,
Fe oedd yn llywydd ar y lle.
Ffarwel dangnefedd i wlad Gwynedd
Am wr o fonedd gore fu
Drwy anfon synwyr Ustus cywir
Roedd gore llwybr ar bob llu.

Ffarwel ddaioni mewn chwarteri,
Fe oedd wr ffri yn oleuni i'r wlad,
Fe oedd gyntreifiwr at bob cyflwr,
Gore lliniwr y gwellhad ;
Ei gwir eirie a'i Lythyre,
Oedd ganwyll ole hyd barthe'r byd,
Sir Thomas Kyffin uwch law cyffredin
Y galwe'r Brenin glan ei bryd ;
Bydd cyffadwriaeth da ei waedoliaeth
Uwch law cywaeth i'w Blant cu,
Bydd enw mwyn-gu gadd o Ynghymru
Yn disglær d'wynu ar deulu ei dy.

My Lady hynod uchel fawrglod
Blin i'w thrallod syndod siwr,
O fyn'd o ange trwy gystuddie
Ag ef o'i gartre gore gwr,

I'w liwdeg cynes Ladies canaid,
 Trwm iddyn weled yn ddi-wad,
 Fe bery yn drymder dros hir amser
 I'r pedair tyner am eu Tad ;
 Mae part o Gymru yn prudd alarŷ
 Ei roi mewn gwely gwaelod Bedd,
 Ei ben daionus doeth 'madrodd medrus
 Anfon Ustus hoenus hedd !

Mae'r holl wledydd mawr a'r trefydd
 Yn ddi-gynnydd bod ag un,
 Fel llong ar soddi heb gaptain arni
 Bydd pawb yn ofni bob yn un ;
 Ar galed dywydd yn eu cystudd,
 Ag heb un llywydd wrth ei llyw
 Yn wylo'r dagre ar gryfion done
 Am na fase ef yn fyw ;
 Bydd Gwreccsam, Dinbych a Rhuthyn burwych
 Yn cofio'r dewrwyd aeth i'r dwst,
 Cwmpeini i'r bonedd help i'r gwannedd
 Bu a llaw rwyddedd yn Llanrwst.

Mae Conwy dirion a Chaernarfon,
 Trefydd cyrion Meirion, Mon,
 Fflint 'run modde y gwyr mawr nhwythe
 Ar bob siwrne am dano'n son ;
 Bydd pob uchelwr, aml ffarmwr
 Yn cwyno eu cyflwr yn fwy caeth,
 O eisio'n agos fod Sir Tomos
 Ni base'r achos fel yr aeth ;
 Mae'n anghyfanedd Faenan fwynedd
 Cyrchfa bonedd haeledd hedd ;
 Och mae'n drymedd am un puredd
 Eitha bonedd aeth i'r bedd.

Och mawr yw'r adwy am wr teimladwy
 Trwy Nant Conwy cynar fan,
 Am Ustus cywir swcor sicr
 Da'i glod yn wir mae'r glyn yn wan ;

Ef a rodded yn Llanddaged
 Mewn Seler galed dyna'r gwir,
 Adgyfodiad llawen iddo
 Ddelo i fynu o hyno cyn pen hir ;
 Yn Bump a deigien Ange a'i dyge
 Terfyne ei ddyddie o'i boena i ben,
 Un mis Mehefin dyddiau hafedd
 Y rhoed mewn marwedd fedd, Amen.

ELLIS ROBERTS,

(Elis y Cowper), a'i Cant.

CAN YR HEN BOBL.

Hen wr a hen wraig o'r hen ddullwedd,
 Ar aelwyd oedd wledig, yn Ngwynedd,
 Fin nos wrth y tân,
 A unent mewn cân,
 Wrth gofio mor agos eu diwedd.

O, pa'm rhaid i henaint ein clwyfo ?
 Nid oes yma ddim i'n dolurio ;
 Yn gwau y mae Gwen,
 Gwnaf finau lwy bren,—
 Mor ddedwydd mae'r nos yn mynd heibio !

Nid oedd genym ddim yn y dechreu ;
 Trwy drafferth daeth pobpeth o'r goreu ;
 Cyd weithiem yn llon,
 Ac ysgafn ein bron.
 Mewn iechyd, heb wasgfa nac eisiau.

Treuliasom ein bywyd yn foddlon,
 Er pan ddaethom gynta'n gyfeillion ;
 Er ymladd â'r byd,
 Mewn ffwdan o hyd,
 Erioed ni rwnachodd ein calon.

Ni roisom ein calon ar elwa,
 Na rhodïo ffordd galed cybydd-dra ;

Ond cawsom heb ffael—
 Beth rhagor sy i'w gael—

Ein gwala a'n gweddill hyd yma.

Er nas gallwn fostio'n haur melyn,
 Mae genym ni ferched a bechgyn,

Y rhai sy'n eu bfi
 Yn anwyl i ni,

Uwch golud anwadal y cerlyn.

Ond gwelsom rai troion rhyfeddol,
 Yn ystod ein gyfa-ddaearyl ;

Newidiwyd rhai'n fawr,
 Rhai fyny, rhai lawr,—

Aeth llawer i'w cartref trag'wyddol.

Pa ddyben yw siarad am elwa ?

Mae'n amlach gyfyngder a gwasgfa :

Buom ni yn o hir
 Mewn prinder, yn wir,

Er na buom eto'n cardota.

Yn ty hwn dechreu'som gydfydio,

A hir buom dad a mam ynddo ;

Gall ddal i ni 'mlaen,
 Er nad yw'n waith maen,

Nes awn i wlad well i breswyllo.

A phan ddaw yr awr i ymddatod,

Cawn huno mewn heddwch cydwybod,

A gorphwys mewn hedd
 Yn nyfnder y bedd,

Heb deimlo na blinder na thrallod.

O, pa'm rhaid i henaint ein clwyfo ?

A ninau heb ddim i'n gofidio ;

Awn adre'n y man,
 I dderbyn ein rhan,

Ac eraill ddaw yma i breswyllo.

CYNDDELW.

BYRDRA OES DYN.

Mesur—'Triban Morfydd.'

A fedd synwyrâu diau dowch,
 Ar undeb trowch i wrando
 Yn un fwriad gan fyfyrío
 Fel mae'n llethrog ddydd yn llithro,
 Ni rusir mono i aros mynyd,
 Gwalch ar hedfan, edyn buan ydyw'n bywyd.
 I ba beth y'gwnawn ein nyth
 Lle na chawn byth fwyneidd-dra?
 Llong ar dymhestl yw'r byd yma,
 Rhyw groes ofid a'n croesawa;
 Os heddyw dyddia byr ddedwyddwch,
 Cawn gylchynu cyn y fory ag anniirwch.
 Pa beth yw mawrion beilchion byd?
 Yr iachol fron a'r uchel fryd,
 Y luniog eneth lana' i gyd
 Hi ddaw i'r gweryd gwaredd
 Ni chymmerir parch a mawredd
 Enw a golud—mwy na gwaeledd;
 Unrhyw brenin a chardotyn,
 Unrhyw gwawr y cawr a'r coryn,
 Mae gyrfa dyn yn gryf un dyniad
 Fel ar genlli daw o'r Eryri'r dwr i waered.
 Mae llawer profiad treigliad tro
 Ar ddyn o hyd o'i grud i'r gro,
 Mewn rhyfel drud â'r byd tra b'o,
 Gan geisio ynddo gysur;
 Ar ei galon ddilon ddolur
 Am ail yfed mwy o lafur,
 Gwneuthur casgl a methu cysgu,
 Yn y byd ei fryd hyfrydu,
 Yn nghanol hyny ei alw o hono,
 Heb un gronyn, da na thyddyn fel daeth iddo.

Gwagedd mawr rhoi serch a bryd
 Ar olud byd a'i wychder,
 Hedeg ymaith y mae'n hamser,
 Ar ein hoedl na rown hyder ;
 Pa mor ofer yw ymrwyfo
 Am ormodedd, yn y diwedd a'n gadawo ?
 Ffol i ddyn roi 'i goryn gwan
 Yn filwr dan ofalon
 Tra fo conglau yn ei galon
 Anostegol nid oes digon
 Bydol union a'i bodlona,
 Pethau'n darfod, ansawdd ammod, hyn sydd yma.
 Ni wnaed ini mo'r byd un waith,
 Na ninau i'r byd awch unfryd chwaith,
 Ond er ein tywys ar ein taith
 Drwy'r dyrys maith daearol ;
 Bod yn fyr o'r byd anfarwol
 Yw ei flysio'n rhy affesol ;
 Dodrefn benthg oll sydd ynddo,
 Mae da'r byd i gyd i'w gado ;
 Prin cawn o hono, cofwn hyny
 Letty priddfedd i deg orwedd wedi ei garu :
 Noeth y daethom megys *Io*,
 A noeth yr awn i nyth o ro,
 Ein neges yma trigfa tro
 Ail geisio nefol gysur ;
 Cyn i'n dydd hwyrâu yn rhyhwyr,
 Cyn machludo haul ein hawyr,
 Yn ein gwisg gochelwn gysgu,
 Gwaedd ar haner nos sy'n nesu ;
 Dyn ni phery mewn hoff hiroes,
 Ceisiwn felly, Amen lynu mewn ail einioes.

NANTGLYN.

HIRAETH AM LANFAIR,

Mesur—"Mary Blane"

Er cael pleserau o bob rhyw,
 A byw mewn hufen byd ;
 Ni roddant imi fawr o hedd,
 Ond gwagedd ynt i gyd :
 Pa les i mi yw rhodio'n rhydd
 Ar hyd y gwledydd glân !
 Pa fodd y gwnaf ymlawenhau
 A'm ffrindiau ar wahân ?
 Fy nghalon dirion lam o hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i ;
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd,
 Os byth anghofiaf di.

Rhyw hudol fwyn hyfrydol fan
 Yw'r llan ar fin y lli ;
 Melusol ydyw cwafrïol gân
 Hedyddion mân i mi :
 O lawnder calon bronfraith lân
 Gogleisgân ddiddan ddaw,
 A pheraidd gwyn y fwyalch fwyn
 O gwr y llwyn gerllaw ;
 Fy nghalon dirion lam o hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i ;
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd
 Os byth anghofiaf di.

Rhoir clod i Lundain gain ei gwedd,
 A'i mawredd yn mhob man ;
 Er hyny hoffwn fyw yn rhydd
 A llonydd yn ein llan.
 Cawn yno groesaw gan fy Mam,
 Heb ofyn pa'm y dois ;
 Na'r achos imi droi yn ol
 O siriol wlad y Sais :
 Fy nghalon dirion lam o hyd &c.

Er cael cyfeillion rif y sêr
 A mwynder yn mhob man,
 Hiraethu wnaif am fyn'd yn ol
 I'm genedigol lan ;
 Cael eiste'n ymyl aelwyd hardd
 Fy Mam, yn Fardd o fri,
 Yn nghwmni bechgyn bochgoch iach,
 Mil mwynach yw i mi :
 Fy nghalon dirion lam o hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i ;
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd
 Os byth anghofiaf di.

Nid oes i mi ond gofid dwys
 Wrth fyw dan bwys y byd ;
 Rhyw oerfel drwy fy monwes draidd
 A gwelwaidd yw fy mhryd :
 Er hell bleserau'r ddaear hon
 Ni fydd fy mron yn iach,
 Yn unman arall dan y ne',
 Ond yn ein pentre bach ;
 Fy nghalon dirion lam o hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i ;
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd
 Os byth anghofiaf di.

Pe cawn adenydd c'lomen deg
 Chwim hedeg yno wnawn,—
 Dros fryn a dyffryn, dôl a gwaen,
 Ymlaen, ymlaen yr awn,
 Nes imi fyn'd i'r dyffryn glwys
 Heb orphwys ar fy hynt ;
 Ond hedeg wnawn i'r hyfryd fan
 Yn fuan fel y gwynt :
 Fy nghalon dirion lam o hyd
 I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i ;
 Anghofier fi gan bawb drwy'r byd
 Os byth anghofiaf di. **TALHAIARN.**

MOLAWD ARTHUR.


Gwrol a da ydyw Arthur y Cymry,
 Teilwng yw byth o anrhydedd a chlod ;
 Arthur sydd fawr megys tad yn ei deulu—
 Arthur ein teyrn yw y doethaf yn bod :
 Gwelir ei fawredd,
 Cenir ei glod,
 Swynion ei enw yn anwyl a gofir,
 Tra pery y rhod,

Mwyniant a gawn lawer blwyddyn trwy Arthur
 Lloches i'r gwan a tharian gref yw ;
 Mwyach bydd pawb yn ddyogel rhag dolur,
 Ysgwyd wna'r cledd yn neheulaw ein llyw :
 khyddid gaed drwyddo,
 Brydain, O clyw !
 Cofir ei hanes " tra mor a thra Brython,"
 A'i enw gaiff fyw.

Gwisger ei ben a choronau y gwledydd,
 Cariad ei bobl nefoleiddio ei wedd :
 Cododd ei wlad o dan droed y gorthrymydd ;
 Llwyddiant a bri gawsom oll drwy ei gledd :
 Dalied yn loyw,
 Llanwed o'i sedd
 Wlad y Brythoniaid, dros byth, megys heddyw,
 A llwyddiant a hedd.

R. J. DERFEL.

W. J. Roberts, Angraphydd, Llanrwst.







3 2044 004 325 89

